

Diogelu data

Cod ymarfer cais gwrthrych

Ymdrin â cheisiadau
unigolion am
wybodaeth bersonol

ico.

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

Cynnwys

1. **Ynghylch y cod ymarfer hwn**

Diben y cod
Pwy ddylai ddefnyddio'r cod ymarfer?
Statws y cod
Gwybodaeth bellach

2. **Trosolwg o gais gwrthrych**

Beth yw cais gwrthrych?
Beth yw data personol?
A oes raid i gais gwrthrych am wybodaeth fod mewn fformat penodol?
Faint yw'r ffi?
Pa wybodaeth mae hawl gan unigolyn iddi?
Beth yw'r terfyn amser ar gyfer ymateb?
A oes unrhyw wybodaeth wedi'i heithrio o fynediad gwrthrych?

3. **Ymagwedd gadarnhaol tuag at gais gwrthrych**

4. **Cydnabod cais gwrthrych am wybodaeth**

Beth yw cais gwrthrych am wybodaeth?
Gofynion ffurfiol
Cais gwrthrych am wybodaeth a'r cyfryngau cymdeithasol
Ceisiadau a wneir ar ran eraill
Ceisiadau am wybodaeth am blant
Ymdrin â cheisiadau rhyddid gwybodaeth am ddata personol yr ymgeisydd

5. **Ymateb i gais gwrthrych am wybodaeth – ystyriaethau cyffredinol**

Cais gwrthrych am wybodaeth yw hawl mynediad at ddata personol unigolyn penodol
Cyfrifoldeb y rheolydd data
Systemau rheoli gwybodaeth
Terfynau amser
Uchafswm ffioedd a chostau
Gwneud newidiadau rhesymol i hwyluso gofynion pobl anabl

Profi pwy yw'r ymgeisydd
Pan fydd ymgeisydd yn marw cyn darparu ymateb
Ymdrin â cheisiadau aml-eitem

6. **Canfod ac adfer yr wybodaeth berthnasol**

Hyd a lled y ddyletswydd i ddarparu cais gwrthrych am wybodaeth
Egluro'r cais
Cofnodion electronig
 Gwybodaeth wedi archifo a chofnodion wrth gefn
 Gwybodaeth a ddilëwyd
 Gwybodaeth a geir mewn e-byst
 Gwybodaeth wedi storio ar offer cyfrifiadurol personol
Cofnodion eraill
Addasu data ar ôl derbyn cais gwrthrych am wybodaeth

7. **Ymdrin â cheisiadau gwrthrych am wybodaeth sy'n ymwneud â gwybodaeth am bobl eraill**

Y rheol sylfaenol
Y dull tri cham o ymdrin â gwybodaeth am drydydd parti
Cyfrinachedd
Ffactorau perthnasol eraill
Ymateb i'r cais

8. **Cyflenwi gwybodaeth i'r ymgeisydd**

Gwybodaeth mae'n rhaid ei chyflenwi
Penderfynu pa wybodaeth i'w chyflenwi
Ar ba ffurf mae'n rhaid cyflenwi'r wybodaeth
Egluro'r wybodaeth a gyflenwir
Cyflenwi gwybodaeth ar ffurf barhaol – sut i weithredu'r eithriad 'ymdrech anghymesur'
Ymdrin â cheisiadau mynych neu afresymol

9. **Eithriadau**

Eithriadau a chyfyngiadau – cyffredinol
Tystlythyrau cyfrinachol
Gwybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus
Trosedd a threthiant
Gwybodaeth rheoli
Trafodaethau gyda'r ymgeisydd
Gweithgaredd rheoleiddio
Cyngor ac achosion cyfreithiol
Cofnodion gwaith cymdeithasol

Cofnodion iechyd ac addysg
Eithriadau eraill

10. **Achosion arbennig**

Ffeiliau credyd
Cofnodion iechyd
Gwybodaeth a gedwir gan ysgolion am ddisgyblion
Gwybodaeth am arholiadau

11. **Gorfodi hawl cais gwrthrych am wybodaeth**

Pwerau gorfodi'r Comisiynydd Gwybodaeth
Gorfodaeth drwy orchymyn llys
Dyfarniadau iawndal
Mae gorfodi unigolyn i wneud cais gwrthrych yn dramgwydd
troseddol

1. Ynghylch y cod ymarfer hwn

Diben y cod

Mae'r cod ymarfer hwn yn egluro hawliau unigolion i gael mynediad at eu data personol. Mae hefyd yn esbonio beth sy'n rhaid i chi ei wneud yn hyn o beth i gydymffurfio â'ch dyletswyddau fel rheolydd data. Rhestrir yr hawliau a'r dyletswyddau hyn yn adrannau 7–9A Deddf Diogelu Data 1998 (DPA) a chyfeirir atynt yn aml fel 'cais gwrthrych am wybodaeth', ymadrodd mae'r cod hwn hefyd yn ei ddefnyddio. Mae'r cod yn cyfeirio at gais a wnaed o dan adran 7 y DPA fel 'cais gwrthrych am wybodaeth' (SAR).

Mae chweched egwyddor diogelu data y DPA yn mynnu eich bod yn prosesu data personol yn unol â'r hawliau mae'r Ddeddf yn eu caniatáu i unigolion. Un o'r hawliau hynny yw cais gwrthrych am wybodaeth. Bwriad y cod yw eich helpu i ddarparu mynediad at wybodaeth yn unol â'r ddeddf ac ag arfer da. Mae'n ceisio gwneud hynny drwy esbonio sut i gydnabod cais gwrthrych am wybodaeth, a thrwy gynnig cyngor ymarferol ynghylch sut i ymdrin â chais o'r fath a sut i ymateb iddo. Mae'n darparu canllaw ar y nifer bach hynny o amgylchiadau pan na ryddheir gwybodaeth ynghylch data personol. Mae'r cod hefyd yn esbonio sut y gellir gorfodi hawl gwrthrych am wybodaeth pan fydd pethau'n mynd o chwith.

Pwy ddylai ddefnyddio'r cod ymarfer?

Dylai unrhyw sefydliad sy'n cadw data personol ddefnyddio'r cod i'w helpu i ddeall bod arnynt ddyletswydd i ddarparu mynediad at y data hwnnw, ac i'w helpu i ddilyn arfer da wrth ymdrin â cheisiadau gwrthrych am wybodaeth. Bydd y cyngor ar arfer da sydd yn y cod yn gymorth i bob sefydliad – boed yn y sector cyhoeddus, y sector preifat, neu yn y trydydd sector. Er y bydd y dulliau a fabwysiedir gan y sefydliadau yn debygol iawn o fod yn rhai amrywiol, yn ddibynnol ar eu maint ac ar natur y data personol sydd yn eu mediant, mae egwyddorion sylfaenol cais gwrthrych am wybodaeth yn union yr un fath ym mhob achos.

Statws y cod

Rhyddhaodd y Comisiynydd Gwybodaeth y cod ymarfer hwn o dan adran 51 y DPA fel rhan o'i dyletswydd i hybu arfer da. Yn ôl y DPA

mae arfer da yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, cydsyniad â'r Ddeddf.

Y cod hwn yw dehongliad y Comisiynydd Gwybodaeth o beth mae'r DPA yn ei ofyn gan sefydliadau er mwyn iddynt gydymffurfio â SARau. Mae'n rhoi cyngor ar arfer da, ond nid yw cydymffurfio â'n hargymhellion yn orfodol os ydynt yn mynd tu hwnt i ofynion caeth y DPA. Nid oes gan y cod ei hun rym cyfreithiol, gan mai'r DPA sy'n gosod ymrwymadau mae modd eu gorfodi'n gyfreithiol ar sefydliadau.

Gall sefydliadau ddod o hyd i dulliau amgen o gyflawni gofynion y DPA ac o fabwysiadu arfer da. Fodd bynnag, o wneud dim byd, maent mewn perygl o fod yn torri'r gyfraith. Ni all Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth fynd ati i orfodi os methir â mabwysiadu arfer da nac i weithredu argymhellion y cod oni bai fod hynny yn do'i hun yn torri amodau'r DPA.

Yr ydym wedi ceisio gwahaniaethu rhwng ein hargymhellion ni ynghylch arfer da a gofynion cyfreithiol y DPA. Yr ydym ni'n darparu cyngor ynghylch ymagwedd gadarnhaol at fynediad gwrthrych ym mhennod 3 ac yn rhestru, lle mae hynny'n briodol, ar ddiwedd penodau dilynol rai dangosyddion fod sefydliad yn ymdrin yn llwyddiannus â chais gwrthrych am wybodaeth. Fodd bynnag, mae'n anochel fod peth gorgyffwrdd rhwng gofynion y DPA ac arfer da: er bod y DPA yn nodi'r gofynion cyfreithiol, nid yw'n darparu canllaw ar y mesurau ymarferol y gellid eu cymryd er mwyn cydymffurfio â hwy. Mae'r cod hwn yn gymorth i gau'r bwlch hwnnw.

Gwybodaeth bellach

Mae'r cod ymarfer hwn yn rhan o gyfres o ganllawiau i'ch helpu chi fel sefydliad i lwyr ddeall eich goblygiadau o dan y DPA, yn ogystal ag i hybu arfer da. Ceir trosolwg o brif ddarpariaethau'r DPA yn [The ICO Guide to Data Protection](#).

Mae'r cod yn ganllaw i'r dulliau gweithredu yr ydym yn eu hargymhell yn gyffredinol, er y bydd penderfyniadau ar achosion penodol bob amser yn seiliedig ar amgylchiadau penodol yr achos unigol.

Am wybodaeth bellach ar hyn, neu ar unrhyw agwedd arall ar ddiogelu data neu ryddid gwybodaeth, ewch i wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth: www.ico.org.uk.

2. Trosolwg o gais gwrthrych

Beth yw cais gwrthrych?

Mae galluogi unigolion i ganfod pa ddata personol sydd gennych amdanynt, pam mae yn eich meddiant, ac i bwy rydych yn datgelu'r wybodaeth, yn sylfaenol i arfer da gyda golwg ar ddulliau cadw gwybodaeth. Mae Deddf Diogelu Data 1998 (DPA) yn rhoi'r hawl i unigolion fynnu eich bod yn gwneud hyn.

Nodir yr hawl hon, a elwir yn gyffredin yn gais gwrthrych am wybodaeth, yn adran 7 y DPA. Gall unigolion arfer yr hawl drwy gyflwyno 'cais gwrthrych am wybodaeth' (SAR) ysgrifenedig.

Beth yw data personol?

Er mwyn i wybodaeth fod yn ddata personol, mae'n rhaid iddi *ddwyn perthynas* ag unigolyn byw, ac mae'n rhaid ei bod yn caniatáu i'r unigolyn hwnnw *gael ei adnabod* ar ei sail (naill ai ar ei phen ei hun, neu ar y cyd â gwybodaeth bellach sy'n debygol o ddod yn eiddo i'r sefydliad). Gweler pennod 5 am fwy o ganllaw ar ystyr y term 'data personol'.

A oes raid i SAR fod mewn fformat penodol?

Na. Mae'n rhaid gwneud SAR yn ysgrifenedig, ac os ydych yn gofyn am ffi am ymdrin â'r cais, rhaid cynnwys y ffi. Efallai na fyddwch yn mynnu bod rhywun yn defnyddio ffurflen benodol ar gyfer gwneud SAR, ond os oes ffurflen ar gael gallai hynny helpu'r ymgeisydd i ddarparu'r wybodaeth rydych ei hangen er mwyn ymdrin â'i gais.

Faint yw'r ffi?

Oni bai fod y SAR yn ymwneud ag un o nifer bach o gategorïau arbennig o wybodaeth, yr uchafswm y gallwch ei godi am ddelio â'r cais yw £10. Os yw'r cais yn ymwneud â chofnodion iechyd neu gofnodion addysgol neu ffeiliau credyd (egllurir hyn ym mhennod 10 'Achosion arbennig'), mae ffioedd gwahanol yn dod i rym.

Pa wybodaeth mae hawl gan unigolyn iddi?

Arferir hawl gwrthrych am wybodaeth amlaf gan unigolion sydd eisiau gweld copi o'r wybodaeth mae sefydliad yn ei gadw amdanynt. Fodd bynnag, mae hawl gwrthrych am wybodaeth yn fwy cynhwysfawr na hynny; mae gan unigolyn hawl:

- i wybod a oes unrhyw ddata personol yn cael ei brosesu;
- i gael disgrifiad o'r data personol, y rhesymau pam ei fod yn cael ei brosesu, ac a fydd yn cael ei roi i unrhyw sefydliadau neu bobl eraill;
- i gael copi o'r data personol; ac
- i gael manylion am ffynhonnell y data (os yw ar gael).

Gall unigolyn hefyd wneud cais am wybodaeth ynghylch y rhesymu dros unrhyw benderfyniadau awtomataidd a wnaed amdano ef neu hi, er enghraifft penderfyniad cyfrifiadurol i ganiatáu neu i wrthod credyd, neu asesiad o berfformiad gwaith (ac eithrio os yw'r wybodaeth yn gyfrinach fasnachol).

Mae cais gwrthrych am wybodaeth yn darparu hawl i'r ymgeisydd weld ei ddata personol, yn hytrach na hawl i weld copïau o'r dogfennau sy'n cynnwys eu data personol. Yn aml, y ffordd hawsaf o ddarparu'r wybodaeth berthnasol yw drwy ddarparu copïau o ddogfennau gwreiddiol, ond nid oes rheidrwydd arnoch i wneud hynny.

Beth yw'r terfyn amser ar gyfer ymateb?

Ran amlaf mae'n rhaid i chi ymateb i SAR yn ddi-oed, ac yn sicr o fewn 40 dydd calendr i'w dderbyn.

A oes unrhyw wybodaeth wedi'i heithrio o fynediad gwrthrych?

Oes. Mae rhai mathau o ddata personol wedi'u heithrio o hawliau gwrthrych i wybodaeth, ac felly ni ellir sicrhau'r wybodaeth drwy wneud SAR. Gallai'r wybodaeth fod wedi'i heithrio oherwydd ei natur, neu oherwydd yr effaith debygol y gallai datgelu'r wybodaeth ei hachosi. Mae hefyd rai cyfyngiadau ar ddatgelu gwybodaeth mewn ymateb i SAR – pan fyddai hynny'n golygu datgelu gwybodaeth am unigolyn arall, er enghraifft. Mae Pennod 9 yn cynnig manylion pellach ar eithriadau mynediad gwrthrych.

3. Ymagwedd gadarnhaol tuag at gais gwrthrych

Mae hawl mynediad at wybodaeth yn hawl sylfaenol i bob unigolyn. Ond mae hefyd yn gyfle i chi wella eich gwasanaeth i'r cyhoedd, a'ch dull o'i gyflwyno, drwy ymateb i geisiadau gwrthrych am wybodaeth (SARau) yn effeithlon ac mewn modd tryloyw, a thrwy wella i'r eithaf ansawdd yr wybodaeth bersonol rydych yn ei chadw.

Yn ein profiad ni, mae'r rhan fwyaf o sefydliadau yn dymuno helpu pan fydd unigolyn yn cyflwyno SAR, p'un a yw'r unigolyn yn gwsmer iddynt, yn gyflogedig ganddynt, neu'n rhanddeiliad mewn rhyw ffordd arall. Mae'n beth synhwyrol i helpu unigolion ymarfer eu hawliau i gael gwybodaeth, yn hytrach na'u llesteirio. Pan fydd pethau'n mynd o chwith, mae cwynion yn dueddol o ddilyn. Gellid osgoi llawer o'r cwynion a glywn drwy ddilyn y cynghorion o arfer da a welir yn y cod hwn. Yn benodol, os esboniwch chi'n eglur sut gall unigolion gyflwyno cais am ddata personol, yr hyn rydych ei angen ganddynt, a'r hyn rydych yn bwriadu ei wneud yn gyfnewid am hynny – ac os cadwch at eich gair – mae'n debygol y gallwch osgoi ymrafaelion ac anawsterau drudfawr.

Bydd mabwysiadu'r argymhellion arfer da sydd yn y cod hwn yn eich helpu:

- i gydymffurfio â'ch goblygiadau cyfreithiol o dan Ddeddf Diogelu Data 1998 (DPA) – ac i ddangos sut gwnaethoch hynny;
- i lyfnhau'r prosesau o ymdrin â SAR, gan arbed amser ac ymdrech i chi;
- i gynyddu lefelau ymddiriedaeth a hyder yn eich sefydliad drwy fod yn onest gydag unigolion ynghylch y data personol rydych yn ei gadw amdanynt;
- i ddal gafael ar eich cwsmeriaid drwy gynnig gwell gofal ohonynt;
- i gynyddu hyder yn eich dulliau o drafod gwybodaeth;

- (os yw eich sefydliad yn y sector cyhoeddus) i wella tryloywder eich gweithgaredd yn unol â gofynion polisi cyhoeddus;
- i alluogi cwsmeriaid, gweithwyr, ac eraill i wirio bod yr wybodaeth sydd gennych amdanynt yn gywir, ac i ddweud wrthyh os nad yw; ac
- i wella eich dull o gyflwyno gwasanaeth o ganlyniad.

Mae'n bosibl y bydd gan sefydliad gydag agwedd gadarnhaol tuag at gais gwrthrych am wybodaeth y dangosyddion arfer da a ganlyn:

Hyfforddiant

Fel rhan o'r hyfforddiant cyffredinol ar ddiogelu data, caiff pob aelod o staff hyfforddiant ynghylch sut i gydnabod SAR. Yn ddibynnol ar eu rôl yn y gweithlu, darperir hyfforddiant manylach ar sut i drafod SARau i aelodau perthnasol o staff.

Arweiniad

Mae tudalen un-pwrpas ar ddiogelu data ar gael i staff ar fewnwyd y sefydliad, a dolenni at bolisiau a dulliau gweithredu SAR.

Staff sy'n trafod ceisiadau

Mae person penodol neu dîm canolog yn gyfrifol am ymateb i geisiadau. Mae mwy nag un aelod o staff yn gwybod sut i brosesu SAR fel bod modd gweithredu yn absenoldeb un arall.

Rhag ofn fod ymgeiswyr yn anfodlon gyda'r ymateb cyntaf, sefydlwyd trefn lle mae uwch reolydd yn ei adolygu.

Arbenigwyr diogelu data

Mewn sefydliad mawr, ceir arbenigwyr diogelu data neu 'bencampwyr gwybodaeth' i ddarparu arbenigedd ar ddiogelu data, gan gynnwys cynghori ar SARau, mewn adrannau lle prosesir data personol.

Monitro cydymffurfiad

Arolygir cydymffurfiad â SARau ac fe'i trafodir pan fydd y grŵp llywio ar reolaeth gwybodaeth yn cyfarfod, a chedwir gwybodaeth rheoli sy'n dangos faint o SARau a dderbyniwyd. Trosglwyddir manylion am unrhyw geisiadau na fu symud arnynt o fewn y terfyn amser statudol i uwch fforwm priodol, fel bod unrhyw esgeulustod yn cael sylw ar lefel uchel.

Nodir dangosyddion pellach o arfer da ar ddiwedd nifer o benodau dilynol y cod. Ni fydd pob un o'r dangosyddion hyn yn berthnasol i bob sefydliad.

4. Cydnabod cais gwrthrych am wybodaeth

Beth yw cais gwrthrych am wybodaeth?

Yn syml, cais gwrthrych am wybodaeth (SAR) yw cais ysgrifenedig a gyflwynir gan, neu ar ran, unigolyn i weld gwybodaeth mae hawl ganddo ef neu hi ofyn amdani o dan adran 7 Deddf Diogelu Data 1998 (DPA). Nid oes raid i'r cais fod ar ffurf benodol. Nid oes raid iddo ychwaith gynnwys y geiriau 'cais gwrthrych am wybodaeth' na chyfeirio o gwbl at y DPA. Yn wir, gall cais fod yn SAR dilys hyd yn oed os yw'n cyfeirio at ddeddfwriaeth arall, megis y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (FOIA).

Gofynion ffurfiol

Mae'n rhaid gwneud SAR yn ysgrifenedig. Gall ffurflenni safonol ei gwneud hi'n haws i chi adnabod SAR, a'i gwneud hi'n haws i'r unigolyn gynnwys yr holl fanylion y gallech fod eu hangen ar gyfer rhoi eich llaw ar yr wybodaeth maent ei hangen. Fodd bynnag, nid oes ffurflen gais arbennig wedi'i phennu yn ôl y gyfraith. Ni allwch ychwaith orfodi unigolion i ddefnyddio eich ffurflen fewnol chi'ch hunan i gyflwyno SAR. Gallwch wahodd unigolion i ddefnyddio eich ffurflen gais chi'ch hunan, ond dylech ei gwneud yn glir nad yw hynny'n orfodol ac ni ddylech ddefnyddio hynny fel ffordd o ymestyn y terfyn amser o 40 diwrnod cyn ymateb.

Mae cais e-bost neu ffacs lawn mor ddilys ag un a anfonwyd ar ffurf copi caled. Gellir derbyn SARau hefyd drwy'r cyfryngau cymdeithasol (gweler isod) ac o bosibl drwy gyfrwng gwefannau trydydd parti. Ni chewch fynnu bod neb yn cyflwyno SAR mewn unrhyw ddull penodol, ond os yw'n well gennych chi un dull na'r llall (e.e. drwy anfon e-bost i flwch post penodol) mae'n arfer da i nodi hynny'n glir. Dylai hyn annog ymgeiswyr i gyflwyno SARau yn y dull sy'n fwyaf cyfleus i chi, ond mae'n rhaid i chi, er hynny, ymateb i SARau a anfonir atoch drwy ddulliau eraill.

Dylech hefyd nodi'r pwyntiau a ganlyn wrth ystyried dilysrwydd.

- Nid oes angen i chi ymateb i gais a wnaed ar lafar ond, yn ddibynnol ar yr amgylchiadau, efallai y byddai'n rhesymol i

wneud hynny (cyhyd â'ch bod chi'n gwbl sicr o bwy yw'r person), ac mae'n arfer da i o leiaf esbonio i'r unigolyn sut i gyflwyno cais dilys, yn hytrach na'i anwybyddu.

- Os nad yw'r cais yn nodi'r DPA yn benodol na hyd yn oed yn dweud ei fod yn gais gwrthrych am wybodaeth, serch hynny mae'n gais dilys a dylid ymdrin ag ef felly os yw'n amlwg fod yr unigolyn yn gofyn am weld ei ddata personol ei hun.
- Nid oes raid i ymgeiswyr ddweud wrthyhych pam maent yn cyflwyno'r cais na beth maent yn bwriadu ei wneud gyda'r wybodaeth y gofynnwyd amdani, er y byddai'n gallu bod o help i chi ddod o hyd i'r wybodaeth berthnasol pe baent yn esbonio diben y cais.
- Mae cais yn ddilys hyd yn oed os nad yw'r unigolyn wedi anfon y cais yn uniongyrchol at y person sy'n ymdrin â cheisiadau o'r fath. Felly mae'n bwysig sicrhau eich bod chi a'ch cydweithwyr yn gallu adnabod SAR ac ymdrin ag ef yn unol â phrosesau SAR eich sefydliad.

Cais gwrthrych am wybodaeth a'r cyfryngau cymdeithasol

Gall unigolion gyflwyno SAR drwy ddefnyddio unrhyw dudalen Facebook neu gyfrif Twitter sydd gan eich sefydliad, gwefannau cyfrwng cymdeithasol eraill mae'n tanysgrifio iddynt, neu o bosibl drwy gyfrwng gwefannau trydydd parti. Efallai nad dyma'r dull mwyaf effeithiol o gyflwyno cais a fydd yn caniatáu i chi ei brosesu yn gyflym a didrafferth, ond ni ellir ei rwystro o ran egwyddor.

Dylech felly asesu pa mor bosibl yw hi y bydd SARau yn cael eu derbyn drwy sianelau'r cyfryngau cymdeithasol a sicrhau eich bod yn cymryd camau rhesymol a chymesur i ymateb yn effeithiol i geisiadau a ddaw i law yn y modd hwn. Fodd bynnag, fel yr ydym yn esbonio ym mhennod 11, mae gan y Comisiynydd Gwybodaeth hawl i weithredu fel y gwelo'n ddoeth ar fater gorfodaeth ac ni fyddai'n gwneud hynny pe byddai'n amlwg yn beth afresymol i'w wneud.

Mae gennych hawl i sicrhau eich bod yn fodlon ynghylch pwy yw'r person sy'n cyflwyno'r cais. Gan fod yn rhaid i'r ymgeisydd ddarparu tystiolaeth o bwy ydyw, a chan y byddwch o bosibl yn gofyn iddynt dalu ffi, yn aml bydd yn rhaid i'r ymgeisydd ddefnyddio dull arall o gyfathrebu â chi, yn ychwanegol at y SAR a anfonwyd drwy'r cyfryngau cymdeithasol.

Gallwch wrthod defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i ddarparu gwybodaeth wrth ymateb i SAR os yw cyfyngiadau technolegol yn gwneud hynny'n anymarferol, neu os yw ystyriaethau ynghylch diogelwch gwybodaeth yn ei gwneud hi'n anaddas i chi wneud hynny. O dan yr amgylchiadau hynny dylech ofyn am gael anfon yr ymateb i gyfeiriad gwahanol.

Ceisiadau a wneir ar ran eraill

Nid yw SAR yn rhwystro unigolyn rhag cyflwyno cais gwrthrych am wybodaeth drwy gyfrwng trydydd parti. Yn aml, cyfreithiwr yn gweithredu ar ran cleient fydd hwn, ond gallai olygu'n syml fod unigolyn yn dymuno i rywun arall weithredu ar ei ran. Mewn achosion o'r fath mae angen i chi sicrhau eich bod yn fodlon fod gan y trydydd parti sy'n cyflwyno'r cais yr hawl i weithredu ar ran yr unigolyn, ond cyfrifoldeb y trydydd parti yw cyflwyno tystiolaeth i brofi ei hawl. Gall fod wedi ei awdurdodi'n ysgrifenedig i gyflwyno'r cais, neu gallai fod yn hawl fwy cyffredinol drwy bŵer atwrnai.

Os ydych o'r farn ei bod yn bosibl nad yw unigolyn yn deall pa wybodaeth a gâi ei datgelu i drydydd parti sydd wedi cyflwyno'r SAR ar ei ran, gallwch anfon yr ymateb yn syth at yr unigolyn yn hytrach nag at y trydydd parti. Yna gall yr unigolyn ddewis rhannu'r wybodaeth gyda'r trydydd parti ar ôl iddo gael cyfle i fwrw golwg drosto.

Mewn rhai achosion nid oes gan yr unigolyn y gallu meddyliol i reoli ei amgylchiadau ei hun. Nid oes darpariaethau statudol penodol sy'n galluogi trydydd parti i arfer hawliau gwrthrych am wybodaeth ar ran person o'r fath. Ond mae'n rhesymol i dderbyn bod gan atwrnai sydd ag awdurdod i reoli eiddo a busnes yr unigolyn, neu berson a benodir gan Lys Nawdd i benderfynu ar achosion o'r fath, yr awdurdod priodol.

Ceisiadau am wybodaeth am blant

Hyd yn oed os yw plentyn yn rhy ifanc i ddeall goblygiadau cais gwrthrych am wybodaeth, eiddo'r plentyn yw ei ddata personol ac nid yw'n eiddo i neb arall, megis rhiant neu warchodwr. Felly, gan y plentyn mae'r hawl mynediad at wybodaeth a gedwir amdano, er bod yr hawliau hyn, yn achos plant ifanc, yn debygol o gael eu harfer gan y sawl sydd â chyfrifoldeb drostynt fel rhiant.

Cyn ymateb i SAR am wybodaeth a gedwir am blentyn, dylech ystyried a yw'r plentyn yn ddigon aeddfed i ddeall ei hawliau. Os ydych yn ffyddiog fod y plentyn yn gallu deall ei hawliau, yna dylech ymateb i'r plentyn yn hytrach nag i'r rhiant. Yr hyn sy'n bwysig yw bod y plentyn yn gallu deall (yn fras) beth mae'n ei olygu i gyflwyno SAR a sut i ddehongli'r wybodaeth mae'n ei derbyn ar ôl gwneud hynny. Wrth ystyried achosion ffiniol, dylech ystyried, ymysg pethau eraill:

- ble fo'n bosibl, aeddfedrwydd y plentyn a'i allu i wneud penderfyniadau o'r math hwn;
- natur y data personol;
- unrhyw achos llys yn ymwneud â hawl i weld plentyn neu gyfrifoldeb perthynol;
- unrhyw ddyletswydd cyfrinachedd sy'n ddyledus i'r plentyn neu'r person ifanc;
- unrhyw ganlyniadau a ddaw o ganiatáu i'r rhai sydd â chyfrifoldebau rhiant gael mynediad at wybodaeth a gedwir am y plentyn neu'r person ifanc. Mae hyn o bwysigrwydd neilltuol os gwnaed cyhuddiadau o gam-drin neu o driniaeth arw;
- unrhyw anfantais i'r plentyn neu'r person ifanc petai'r unigolion sydd â chyfrifoldebau rhiant yn methu â chael mynediad at yr wybodaeth; ac
- unrhyw farn sydd gan y plentyn neu'r person ifanc ynghylch a ddylai'r rhieni gael mynediad at wybodaeth amdano.

Yn yr Alban, mae'r gyfraith yn rhagdybio bod plentyn sy'n 12 oed neu'n hŷn yn meddu ar y gallu i gyflwyno SAR. Nid yw'r rhagdybiaeth hon mewn grym yn Lloegr, Cymru, na Gogledd Iwerddon, ond mae'n dangos agwedd meddwl a fyddai'n un resymol mewn sawl achos. Nid yw'n dilyn fod gan blentyn, dim ond oherwydd bod ganddo'r gallu i gyflwyno SAR, y gallu i roi caniatâd i rannu ei ddata personol gydag eraill – gan ei bod yn bosibl nad yw'n llawn ddeall goblygiadau gwneud hynny.

Am gyngor pellach ynghylch diogelu data mewn perthynas â phlant, gweler pennod 2 ein [Personal information online code of practice](#).

Mae rheolau ar wahân ynghylch mynediad at gofnodion addysgol – gweler pennod 10 'Achosion arbennig' am gyfarwyddyd pellach ar hynny.

Ymdrin â cheisiadau rhyddid gwybodaeth am ddata personol yr ymgeisydd

Fel y nodwyd uchod, gall SAR dilys, ar yr olwg gyntaf, ymddangos yn rhywbeth gwahanol. Nid yw'n beth anghyffredin, er enghraifft, gweld bod y cais yn nodi mai cais rhyddid gwybodaeth (FOI) ydyw. Os yw, mewn gwirionedd, yn ymwneud â data personol yr ymgeisydd, mae'n rhaid i chi ei drin fel cais gwrthrych am wybodaeth.

Enghraifft

Mae awdurdod lleol yn derbyn llythyr oddi wrth unigolyn sy'n talu treth y cyngor, yn gofyn am gopi o unrhyw wybodaeth sydd gan yr awdurdod am anghytundeb ynghylch p'un a yw'n gymwys i dalu llai. Mae'r llythyr yn nodi mai 'cais rhyddid gwybodaeth' ydyw. Mae'n amlwg fod y cais yn ymwneud â data personol yr unigolyn a dylai'r awdurdod lleol ei drafod fel cais gwrthrych am wybodaeth.

Efallai y byddwch yn fwy tebygol o dderbyn SAR ar ffurf cais rhyddid gwybodaeth os yw eich sefydliad yn awdurdod cyhoeddus at ddibenion FOIA neu Reoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 (EIR). Os yw'r sefydliad yn awdurdod cyhoeddus neu beidio, fodd bynnag, mae'n rhaid i chi ymdrin â'r cais mewn dull addas, a bydd hyn yn dibynnu a yw'r cais yn ymwneud â data personol am yr unigolyn yn unig, neu â gwybodaeth arall yn ogystal.

Os yw'r glir fod yr ymgeisydd yn gofyn am ddata personol amdano'i hun yn unig, ond ei fod wedi crybwyll FOIA, dylech weithredu fel a ganlyn.

- Trin y cais fel SAR yn y dull arferol. Nid oes angen i'r ymgeisydd gyflwyno cais newydd. Efallai y bydd rhaid i chi ofyn iddo dalu'r ffi angenrheidiol, neu ofyn i'r unigolyn wirio pwy ydyw.
- Os mai awdurdod cyhoeddus yw eich sefydliad, mae'r data personol y gofynnwyd amdano, mewn gwirionedd, yn cael ei eithrio ac nid oes raid ei ddatgelu o dan FOIA na'r EIR. Yn fanwl gywir, dylech anfon rhybudd gwrthodiad ffurfiol yn

mynegi hynny. Yn ymarferol, fodd bynnag, ni ddisgwyliwn i chi wneud hynny os ydych yn trin y cais fel SAR.

- Mae'n arfer da i awdurdodau cyhoeddus wneud yn glir o fewn 20 dydd gwaith (y terfyn amser ar gyfer ymateb i geisiadau FOI) fod y cais yn cael ei drin fel SAR o dan y DPA, a bod y terfyn amser o 40 diwrnod yn weithredol.

Os yw'r cais yn ymwneud â gwybodaeth nad yw'n bosibl gwneud cais amdani drwy gyfrwng SAR (e.e. mae'n cynnwys cais am wybodaeth nad yw'n wybodaeth bersonol) yna, os mai awdurdod cyhoeddus yw eich sefydliad, dylech ei drin fel dau gais: un am ddata personol yr ymgeisydd a wnaed o dan y DPA; a'r llall am yr wybodaeth sy'n weddill, sef yr wybodaeth amhersonol a wnaed o dan y FOIA. Os yw peth o'r wybodaeth amhersonol yn wybodaeth amgylcheddol, dylech ystyried hynny fel cais a wnaed o dan yr EIR.

Mae'n bwysig ystyried yr wybodaeth o dan y ddeddfwriaeth gywir. Mae hynny oherwydd bod y prawf datgelu o dan y FOIA neu'r EIR yn berthnasol i bawb – nid yn unig i'r ymgeisydd. Os datgelir data personol drwy gamgymeriad o dan y FOIA neu'r EIR i bawb, gallai hynny arwain at dorri'r egwyddor o ddiogelu data.

Am wybodaeth bellach ynghylch ymdrin â cheisiadau FOIA, gweler [Guide to FOIA](#) os gwelwch yn dda.

Am wybodaeth bellach ynghylch eithrio o'r FOIA gyda golwg ar ddata personol, gweler canllawiau'r ICO os gwelwch yn dda:

- [Section 40: personal information](#)
- [Section 40: access to information held in complaint files](#)
- [Section 40: requests for personal data about public authority employees](#)

Am ragor o wybodaeth ar ddelio â cheisiadau am wybodaeth amgylcheddol, gweler [Guide to EIR](#) os gwelwch yn dda.

Mae'n bosibl y bydd gan sefydliad sy'n effro i'r angen am ddelio â SARau yn effeithiol, y dangosyddion arfer da a ganlyn:

Arweiniad

Ceir arweiniad ar gyflwyno SAR, ynghyd â ffurflen, ar wefan y sefydliad. Mae'r arweiniad:

- yn ei gwneud yn glir i ble y dylid anfon y cais;
- yn nodi'r ffi ac yn esbonio'r dewis o ddulliau talu;
- yn nodi'r wybodaeth y bydd yn rhaid i'r ymgeisydd ei darparu er mwyn profi pwy ydyw;
- yn nodi'r cyfnod o 40 diwrnod i ymateb i'r cais; ac
- yn rhoi manylion cyswllt ar gyfer unrhyw gwestiynau.

Er nad yw'n orfodol i ddefnyddio'r ffurflen, pan gaiff ei defnyddio mae'n help i ganfod SARau. Mae'r ffurflen yn cynnwys adran deip 'at ddefnydd swyddfa yn unig' sy'n rhoi cyfarwyddiadau i'r derbynnydd ar beth i'w wneud â'r ffurflen, ac yn darparu lle i gofnodi gwybodaeth a fydd yn gymorth wrth brosesu'r cais (megis dyddiad derbyn y ffurflen, a wiriwyd ID, ac a dalwyd ffi).

Cynhyrchwyd canllaw i staff i'w helpu i ganfod SARau. Cyfeiriwyd y canllaw hwn yn benodol at yr aelodau hynny o staff sy'n ymwneud â data personol, megis staff yr adran adnoddau dynol. Mae'r canllaw, sydd ar gael ar fewnrwyd y sefydliad, yn esbonio beth ddylai staff ei wneud os derbyniant SAR, ac mae'n pwysleisio bod angen gweithredu'n ddi-oed a chyfeirio'r cais at y tîm cywir.

Hyfforddiant

Mae hyfforddiant diogelu data yn cynnwys adran ar SARau ac ar ddelio â cheisiadau gwrthrych. Mae hefyd yn addysgu staff ynghylch eu hawliau hwy fel gwrthrychau data (er mwyn rhoi cyd-destun i'r hyfforddiant). Ar y diwedd rhoddir prawf, gyda marc llwyddo, ac yn achos rhai aelodau o staff cynhwysir presenoldeb fel nod perfformiad.

Bydd staff sy'n ymwneud â gohebiaeth sy'n cyrraedd y sefydliad, er enghraifft staff yr ystafell bost, yn cael eu hyfforddi i adnabod SAR ac i sicrhau bod ceisiadau yn cael eu trosglwyddo'n ddi-oed i'r bobl berthnasol.

Os yw'r sefydliad yn gweithredu system shifftiau, ailadroddir yr hyfforddiant ar brydiau i sicrhau bod y staff i gyd yn cael cyfle i fod yn bresennol.

5. Ymateb i gais gwrthrych am wybodaeth – ystyriaethau cyffredinol

Cais gwrthrych am wybodaeth yw hawl mynediad at ddata personol unigolyn penodol

O dan yr hawl i gais gwrthrych am wybodaeth, mae gan unigolyn hawl i weld ei ddata personol ef ei hun yn unig, ond nid i weld gwybodaeth sy'n ymwneud â pherson arall (oni bai ei fod yn gweithredu ar ran y person hwnnw). Cyn y gallwch ymateb i gais gwrthrych am wybodaeth (SAR), mae angen i chi fedru penderfynu a yw'r wybodaeth sydd gennych yn ddata personol ac, os felly, data personol pwy ydyw.

Mae Deddf Diogelu Data 1998 (DPA) yn darparu, er mwyn i wybodaeth fod yn ddata personol, fod yn rhaid iddi *ddwyn perthynas* ag unigolyn byw, ac mae'n rhaid ei bod yn caniatáu i'r unigolyn hwnnw *gael ei adnabod* ar sail yr wybodaeth honno (naill ai ar ei phen ei hun, neu ar y cyd â gwybodaeth bellach sy'n debygol o ddod yn eiddo i'r sefydliad). Gall cyd-destun y modd mae'r wybodaeth yn cael ei chadw, a'r modd mae'n cael ei defnyddio, ddwyn cysylltiad â ph'un a yw'n ymwneud ag unigolyn, ac o'r herwydd a yw'n ddata personol yr unigolyn.

Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd yn amlwg a yw'r wybodaeth y gofynnir amdani yn ddata personol, ond yr ydym wedi cynhyrchu canllaw ar wahân ([Determining what is personal data](#)) i'ch helpu chi i benderfynu mewn achosion amwys.

Gall yr un wybodaeth fod yn ddata personol i ddau (neu fwy) o unigolion. Daw rheolau pellach i rym lle gall ymateb i SAR olygu darparu gwybodaeth sy'n berthnasol i'r unigolyn sy'n cyflwyno'r cais ac i unigolyn arall. Esbonnir y rheolau hyn ym mhennod 7.

Cyfrifoldeb y rheolydd data

Os gallwch bennu'r rheswm pam mae'r data dan sylw yn cael ei brosesu, ac ym mha ddull y'i prosesir, yna chi (neu eich sefydliad chi) yw'r rheolydd data mewn perthynas â'r data personol hwnnw a byddwch yn gyfrifol am ymateb i'r SAR. Nid yw'r DPA yn caniatáu unrhyw estyniad ar y terfyn amser o 40 diwrnod pan mae'n rhaid

dibynnu ar brosesydd data i ddarparu'r wybodaeth rydych ei hangen er mwyn ymateb.

Enghraifft

Mae cyflogwr yn adolygu staffio a chyflog, sy'n golygu casglu gwybodaeth gan ac am gynrychiolaeth o staff. Mae prosesydd data trydydd parti yn dadansoddi'r wybodaeth.

Mae'r cyflogwr yn derbyn SAR gan aelod o staff. Er mwyn ymateb, mae'r cyflogwr angen gwybodaeth sy'n cael ei chadw gan y prosesydd data. Y cyflogwr yw'r rheolydd data ar gyfer yr wybodaeth hon a dylai ofyn i'r prosesydd data i adfer unrhyw ddata personol sy'n ymwneud â'r aelod o staff.

Os defnyddiwch brosesydd data, mae angen i chi sicrhau bod gennych drefniadau cytundebol sy'n gwarantu bod SARau yn cael eu trin yn gymwys, ni waeth a gawsant eu hanfon atoch chi neu at y prosesydd data.

Esbonnir rôl prosesydd data yn yr [ICO Guide to Data Protection](#).

Systemau rheoli gwybodaeth

Fe'i cewch hi'n anodd ymdrin â SARau yn effeithiol heb fod gennych weithdrefnau a systemau rheoli gwybodaeth digonol. Gan gymryd bod cais gwrthrych am wybodaeth wedi bod yn elfen o ddeddfwriaeth diogelu data ers y 1980au, dylai eich systemau rheoli gwybodaeth fedru hwyluso'r broses o ymdrin â SARau. Dylent eich galluogi i leoli ac echdynnu data personol mewn ymateb i geisiadau gwrthrych am wybodaeth. Dylid cynllunio systemau i ganiatáu ar gyfer golygiad data trydydd parti ble pennir bod hyn yn angenrheidiol. Nid yn unig fe ddylai eich systemau feddu ar yr hyfedredd technegol i chwilio am yr wybodaeth angenrheidiol er mwyn ymateb i SAR, ond dylent hefyd weithredu drwy gyfeirio at bolisiau rheolaeth ddogfennol effeithiol. Er enghraifft, mae'n arfer da cael cynllun ffeilio da ei strwythur, a chael dulliau safonol o enwi ffeiliau ar gyfer dogfennau electronig; a dylai dargadw a dileu dogfennau gael ei reoli yn ôl polisi dargadw clir. Os ydych yn prynu system rheolaeth gwybodaeth newydd, dylech ystyried cynnwys yn y fanyleb yr angen am wneud chwiliadau a SARau.

Terfynau amser

Mae'n rhaid i chi gydymffurfio â SAR 'yn ddi-oed' ac yn sicr o fewn 40 diwrnod i'r dyddiad pan dderbyniwyd y cais neu (os yw'n ddiweddarach) y diwrnod pan dderbynnir:

- ffi (os oes un);
- unrhyw wybodaeth y gofynnwyd amdani ynghylch lleoliad (gweler pennod 6); ac
- unrhyw wybodaeth y gofynnwyd amdani er mwyn profi pwy yw'r ymgeisydd (gweler isod am arweiniad pellach).

Mae'r ddyletswydd i gydymffurfio'n ddi-oed â SAR yn awgrymu'n gryf reidrwydd i weithredu heb oedi'n afresymol, ond mae'r un mor eglur nad oes raid i chi roi blaenoriaeth i'r cydymffurfio hwnnw dros bopeth arall. Derbynnir yn gyffredinol fod y cyfnod terfyn o 40 diwrnod yn sicrhau cydbwysedd priodol yn y rhan fwyaf o achosion rhwng hawliau'r unigolyn i fynediad di-oed at eu data personol a'r angen i ddiwallu anghenion y cyfyngiadau sydd ar adnoddau'r sefydliadau hynny sy'n derbyn SARau. A chymryd eich bod yn ymateb i'r cais yn unol â threfn arferol y swyddfa, heb oedi'n afresymol, ac o fewn y cyfnod o 40 diwrnod, rydych yn debygol o gydymffurfio â'r ddyletswydd i gydymffurfio'n ddi-oed.

Ffioedd a chostau

Gallwch godi ffi am ymdrin â SAR. Os dewiswch wneud hynny, nid oes raid i chi ateb y cais nes byddwch wedi derbyn y ffi. Fel rheol yr uchafswm y gallwch ei godi am ddelio â'r cais yw £10 (gan gynnwys unrhyw daliadau gweinyddol neu ffi trafod cardiau). Mae gwahanol raddfeydd o ffioedd i sefydliadau sy'n cadw cofnodion iechyd neu addysg (yr uchafswm yw £50, yn ddibynnol ar amgylchiadau – gweler pennod 10). Ni thelir TAW ar y ffioedd hyn.

Nid oes angen i chi gydymffurfio â chais tan i chi dderbyn y ffi, ond ni allwch anwybyddu cais dim ond oherwydd bod yr unigolyn heb anfon ffi. Os yw ffi yn daladwy, ond heb gael ei hanfon gyda'r cais, dylech gysylltu'n ddi-oed â'r unigolyn a rhoi gwybod iddo fod angen talu.

Mae rhai sefydliadau yn dewis peidio â chodi ffi. Fodd bynnag, unwaith y dechreuwch ddelio â chais unigolyn heb ofyn am ffi, byddai'n annheg hawlio ffi yn ddiweddarach, fel ffordd o ymestyn y cyfnod amser sydd gennych i ymateb i'r cais.

Mewn sawl achos nid yw'r ffi y gallwch ei hawlio am ymdrin â SAR yn ddigon i dalu'r costau gweinyddol o wneud hynny. Mae'n rhaid i chi ateb y cais, costied a gostio.

Mae un sefyllfa gyfyng ei diffiniad lle mae'r gost debygol o ateb SAR yn berthnasol wrth benderfynu a oes raid i sefydliad gydweithredu. Os yw cais yn ymwneud â 'data personol anstrwythuredig' (fel y'i diffinnir yn adran 9A(1) y DPA) sy'n cael ei gadw gan awdurdod cyhoeddus, nid oes raid i'r awdurdod gydymffurfio â'r cais os amcangyfrifir y byddai'r gost o wneud hynny yn fwy na naill ai £450 neu £600. Mae'r uchafswm perthnasol yn ddibynnol ar bwy yw'r awdurdod cyhoeddus (gweler Rheoliadau Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data (Terfynau a Ffioedd Priodol) 2004).

Gwneud newidiadau rhesymol i hwyluso gofynion pobl anabl

Mae rhai pobl anabl yn ei chael yn anodd cyfathrebu yn ysgrifenedig, a gallant o'r herwydd ei chael yn anodd cyflwyno SAR. Gall fod arnoch ddyletswydd gyfreithiol i wneud newidiadau rhesymol ar gyfer person o'r fath os ydynt am gyflwyno SAR. Gallai newidiadau rhesymol gynnwys ymdrin â chais llafar fel petai'n SAR dilys. Os yw'r cais yn un cymhleth, byddai'n arfer da i chi ei ddogfennu mewn fformat hwylus cael ato, a'i anfon i'r person anabl i gadarnhau manylion y cais.

Efallai y bydd yn rhaid i chi hefyd ymateb mewn fformat penodol sy'n addas i'r person anabl gael ato, megis Braille, print bras, e-bost neu fformat clywedol. Os yw unigolyn o'r farn eich bod wedi methu â gwneud newid rhesymol, gallent wneud cais o dan y ddeddfwriaeth gydraddoldeb berthnasol. Mae gwybodaeth am gyflwyno cais ar gael gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol neu gan Gomisiwn Cydraddoldeb Gogledd Iwerddon.

Profi pwy yw'r ymgeisydd

Er mwyn osgoi cael data personol am un unigolyn yn cael ei anfon i unigolyn arall, naill ai ar ddamwain neu o ganlyniad i dwyll, mae angen i chi fod yn fodlon eich bod yn gwybod pwy yw'r ymgeisydd. Gallwch ofyn am ddigon o wybodaeth i farnu ai'r person sy'n cyflwyno'r cais yw'r unigolyn mae'r data personol yn cyfeirio ato (neu berson a awdurdodwyd i gyflwyno SAR ar ei ran).

Y pwynt allweddol yw bod yn rhaid i chi fod yn rhesymol eich gofynion. Ni ddylech ofyn am lawer yn rhagor o wybodaeth os yw'n amlwg i chi pwy yw'r person sy'n cyflwyno'r cais. Mae hyn yn arbennig o berthnasol os oes gennych chi berthynas sefydlog â'r unigolyn.

Enghraifft

Rydych wedi derbyn SAR ysgrifenedig gan weithiwr presennol. Rydych yn adnabod y gweithiwr hwn yn bersonol a hyd yn oed wedi siarad ar y ffôn ag ef ynghylch y cais. Er mai polisi eich sefydliad yw gwirio pwy yw'r ymgeisydd drwy ofyn am gopi o fil am wasanaeth, byddai'n afresymol gwneud hynny yn yr achos hwn gan eich bod yn adnabod y person sy'n cyflwyno'r cais.

Fodd bynnag, ni ddylech ragdybio, bob amser, mai'r person sy'n cyflwyno'r cais yw'r sawl mae'n ei ddweud yw. Mewn rhai achosion, mae'n rhesymol i chi ofyn i'r person sy'n cyflwyno'r cais i wirio pwy yw cyn anfon gwybodaeth ato.

Enghraifft

Mae gwerthwr ar-lein yn derbyn SAR gan gwsmer drwy e-bost. Nid yw'r cwsmer wedi defnyddio'r wefan am beth amser ac er bod y cyfeiriad e-bost yn cyd-fynd â chofnodion y cwmni, nid yw'r cyfeiriad post a gynigir gan y cwsmer yr un cyfeiriad ag sydd yn nogfennau'r cwmni. Mewn sefyllfa o'r fath, cyn ymateb i'r cais byddai'n rhesymol i gasglu mwy o wybodaeth, a allai fod mor syml â gofyn i'r cwsmer gadarnhau manylion cyfrif, megis rhif cyfeirnod cwsmer.

Gallai'r dull o gyflwyno'r SAR effeithio ar eich penderfyniad ynghylch a oes angen i chi gadarnhau pwy yw'r ymgeisydd. Er enghraifft, os cyflwynir cais drwy gyfrif e-bost rydych yn ddiweddar wedi gohebu â'r ymgeisydd arno, gallech deimlo ei bod yn ddiogel i chi ragdybio bod y SAR wedi ei gyflwyno gan yr ymgeisydd. Ar y llaw arall, os cyflwynir y cais drwy wefan rwydweithio cymdeithasol, byddai'n ddoeth gwirio ei fod yn gais dilys.

Gallai lefelau'r ymchwiliadau y dylech eu cyflawni ddibynnu ar faint y niwed a'r gofid a allai gael ei greu i'r unigolyn dan sylw pe byddai gwybodaeth amhriodol yn cael ei datgelu amdano.

Enghraifft

Mae meddygfa yn derbyn SAR oddi wrth rywun sy'n honni bod yn gyn-glaf. Mae'r enw ar y cais yn cyd-fynd ag enw ar gofnod a gedwir gan y

feddygfa, ond nid oes dim byd arall yn y cais a fyddai'n gwneud i'r feddygfa deimlo'n hyderus mai'r ymgeisydd yw'r claf mae'r cofnod yn cyfeirio ato. Mewn sefyllfa o'r fath, byddai'n rhesymol i'r feddygfa ofyn am fwy o wybodaeth cyn ymateb i'r cais. Mae'n iawn i'r feddygfa fod yn ochelgar oherwydd maint y perygl dichonadwy i'r cyn-glaf petai ei gofnodion iechyd yn cael eu hanfon i'r person anghywir. Gellid gofyn i'r ymgeisydd ddarparu mwy o wybodaeth, megis dogfen sy'n cynnig tystiolaeth o ddyddiad geni, neu basbort.

Cyn darparu unrhyw wybodaeth fel ymateb i SAR, dylech hefyd wirio bod gennych gyfeiriad post cywir yr ymgeisydd, neu gyfeiriad e-bost (neu'r ddau). Os ydych yn darparu gwybodaeth drwy gyfrwng ffacs (ac rydym yn argymhell mai dim ond ar gais penodol yr ymgeisydd y gwnewch hynny), yna mae'n rhaid i chi sicrhau eich bod yn ei hanfon i'r rhif ffacs cywir.

Ymdrin â cheisiadau aml-eitem

Yn ddibynnol ar faint eich sefydliad a natur eich busnes, gallwch o dro i dro dderbyn nifer (ac o bosibl lawer) o SARau mewn cyfnod byr o amser. Oddi mewn i'r sector gwasanaethau ariannol, er enghraifft, nid yw'n beth anghyffredin fod ceisiadau aml-eitem yn cael eu cyflwyno gan gwmnïau rheolaeth hawliadau ar ran unigolion lluosog.

Mae'n rhaid ystyried bob SAR o fewn ceisiadau aml-eitem fesul un ac mae'n rhaid ymateb iddynt yn briodol. Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth yn cydnabod goblygiadau posibl y ddyletswydd hon gyda golwg ar adnoddau, ond mae'n argymhell eich bod yn cadw mewn cof yr egwyddorion a ganlyn wrth ymdrin â chyfeintiau mawr o SARau:

- mae i SAR a gyflwynir fel rhan o gais mawr yr un statws cyfreithiol â SAR a gyflwynir yn unigol;
- nid yw diben SAR yn effeithio ar ei ddilysrwydd, na'ch dyletswydd chi i ymateb iddo;
- os cyflwynir y cais gan drydydd parti ar ran yr unigolyn dan sylw, mae gennych hawl i'ch bodloni eich hun fod y trydydd parti wedi ei awdurdodi i gyflwyno'r cais;

- mae gennych hawl hefyd i'ch bodloni eich hun ynghylch pwy yw'r unigolyn dan sylw;
- mae'n rhaid i chi ymateb i'r cais hyd yn oed os nad oes gennych unrhyw wybodaeth am yr unigolyn. Gall eich ymateb, mae'n amlwg, fod yn un byr iawn mewn achos o'r fath; a
- dylech fod yn barod i ymateb i benllanw'r cyfaint o SARau rydych yn eu derbyn.

Wrth ystyried cwyn ynghylch SAR, bydd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn ystyried y cyfaint ceisiadau a dderbyniwyd gan sefydliad, a'r camau a gymerwyd i sicrhau bod ceisiadau yn cael sylw addas, hyd yn oed yn wyneb cyfaint mawr o geisiadau tebyg. Mae maint y sefydliad a'i adnoddau yn debygol o fod yn ffactorau perthnasol. Fel yr esboniwn ym mhennod 11, mae gan y Comisiynydd Gwybodaeth hawl i weithredu fel y gwelo'n ddoeth ar fater gorfodaeth ac ni fyddai'n gwneud hynny pe byddai'n amlwg yn beth afresymol i'w wneud.

Mae'n bosibl y bydd gan sefydliad sy'n ymateb yn effeithiol i SARau y dangosyddion arfer da a ganlyn:

Rheoli disgwyliadau

Mae'r canllaw sydd i'w gael ar wefan y sefydliad yn tynnu sylw at y terfyn amser o 40 diwrnod ar gyfer ymateb i SAR ac mae pob cais yn cael ei gydnabod drwy gyfrwng llythyr neu e-bost sy'n rhoi gwybod i'r ymgeisydd erbyn pa ddyddiad mae'n rhaid darparu ymateb. Os oes oedi wrth ymdrin â'r cais am unrhyw reswm, mae'r sefydliad yn cysylltu â'r ymgeisydd i esbonio'r rheswm hwnnw ac i nodi'r dyddiad pan ddisgwylir cynnig ymateb.

Mae'r ymateb i SAR yn cynnwys esboniad o'r chwiliadau a wnaed wrth ymdrin â'r cais a'r wybodaeth a ddadlennwyd yn ystod y chwiliadau hynny. Mae hyn yn gymorth i'r ymgeisydd ddeall a ydynt wedi derbyn yr holl wybodaeth mae hawl ganddynt arni.

Cofnodion a rhestrau gwirio

Mae'r sefydliad yn cofnodi pryd maent yn derbyn SARau, ac yn diweddarau'r cofnodion er mwyn monitro datblygiad y gwaith wrth i'r SAR gael ei brosesu. Mae'r cofnod yn cynnwys copïau o'r wybodaeth a gyflenwyd wrth ymateb i'r SAR, ynghyd â chopïau o unrhyw ddeunydd a ddaliwyd yn ôl gydag esboniad o'r rheswm pam.

Defnyddir rhestr wirio safonol er mwyn sicrhau cysondeb yn y dulliau o wirio pwy yw'r ymgeisydd ac o ran casglu ffioedd, ac er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth angenrheidiol yn cael ei chasglu o'r adrannau perthnasol drwy'r sefydliad. Mae'r rhestr wirio yn ffurfio tudalen flaen y ffeil yn achos pob SAR a dderbyniwyd.

Systemau, technoleg a chytundebau

Mae mynegeion dibynadwy, tudalennau cynnwys ffeil, disgrifiadau o ddogfennau a metadata a manylebau technegol ar gyfer systemau yn ei gwneud yn haws i'r rhai sy'n ymdrin â SAR i leoli data personol, penderfynu data personol pwy ydyw, a chymryd penderfyniadau ynghylch ei ddatgelu.

Mewn sefydliad mwy, defnyddir system TG un-pwrpas ar gyfer prosesu SARau. Mae hyn yn galluogi'r sefydliad i reoli a monitro'n effeithiol y ceisiadau mae'n eu derbyn. Mae'r system hon yn cofnodi pob gohebiaeth, ymholiadau am gadarnhau pwy yw'r ymgeisydd, a thalu ffioedd. At hynny, mae'n cofnodi manylion am y cais, megis dyddiad ei dderbyn a'r dyddiad pan mae'n rhaid ymateb iddo, ac mae'n cynhyrchu cofnodion i fonitro cydymffurfiad.

Lle mae prosesydd data yn rhan o'r broses, mae'r sefydliad yn mynnu bod y prosesydd data, cyn cael ei benodi, yn ymwybodol o'i oblygiadau gyda golwg ar fynediad at wybodaeth. Mae cymal sy'n rhestru gofynion y sefydliad wrth ymdrin â SAR yn cael ei gynnwys yn y cytundeb ysgrifenedig.

6. Canfod ac adfer yr wybodaeth berthnasol

Hyd a lled y ddyletswydd i ddarparu cais gwrthrych am wybodaeth

Gall ymdrin â chais gwrthrych am wybodaeth (SAR) fod yn heriol. Gallai hynny fod oherwydd natur y cais, oherwydd swm y data personol dan sylw, neu oherwydd y dull y cedwir gwybodaeth benodol. Yn y bennod hon fe ystyriwn hyd a lled yr hawl i gael mynediad at wybodaeth, a chysylltiad hynny â chategoriâu o wybodaeth a allai fod yn anodd cael mynediad atynt. Esboniwn hefyd pa wybodaeth ychwanegol y gallech fod ei hangen gan yr ymgeisydd er mwyn eich helpu i ddod o hyd i'r data mae ei heisiau.

Mae'r DPA yn gosod disgwyliad mawr arnoch chi i ddarparu gwybodaeth mewn ymateb i SAR. Fel yr esboniwyd ym mhennod 5, dylech sicrhau bod eich systemau rheoli gwybodaeth wedi eu cynllunio a chynnal yn dda, er mwyn i chi allu lleoli ac echdynnu gwybodaeth a geisir gan wrthrychau data y byddwch yn prosesu eu data personol, yn ogystal â golygu data trydydd parti allan os pennir bod angen gwneud hynny.

Dylech fod yn barod i wneud ymdrechion mawr i ganfod ac adfer yr wybodaeth y gofynnwyd amdani. Er hynny, nid oes gofyn i chi wneud pethau y gellid eu hystyried yn afresymol neu'n anghymesur o'u cymharu â phwysigrwydd darparu mynediad at yr wybodaeth. Dylai unrhyw benderfyniad ar y materion hyn adlewyrchu'r ffaith fod hawliau gwrthrych i wybodaeth yn greiddiol i ddiogelu data.

Mae'r DPA yn delio gyda'r sefyllfa ble byddai darparu gwybodaeth i'r ceisiwr ar ffurf barhaol yn amhosibl neu'n golygu ymdrech anghymesur trwy eithriad yn adran 8(2): gweler pennod 8 am fanylion.

Egluro'r cais

Cyn ymateb i SAR, gallwch ofyn i'r ymgeisydd am wybodaeth y byddwch yn rhesymol ei hangen er mwyn dod o hyd i'r holl ddata personol a geisir. Nid oes angen i chi gydymffurfio â'r SAR nes eich bod wedi ei derbyn. Fodd bynnag, hyd yn oed os yw'r wybodaeth berthnasol yn anodd dod o hyd iddi a'i hadfer, nid yw'n dderbyniol i chi ohirio ymateb i'r SAR oni bai ei bod yn rhesymol ofynnol eich

bod angen mwy o wybodaeth i'ch helpu i ddod o hyd i'r data dan sylw.

Enghraifft

Mae cadwyn o archfarchnadoedd yn ymdrin â SAR cyffredinol a dderbyniwyd oddi wrth aelod o staff un o'r canghennau. Mae'r person sy'n ymdrin â'r cais yn fodlon fod yr holl wybodaeth a gedwir yn y ffeiliau personél ac mewn ffeiliau a gedwir gan y rheolwr llinell, wedi cael ei hanfon at yr aelod staff. Fodd bynnag, mae'n cwyno nad yw'r holl wybodaeth amdano wedi ei chynnwys yn yr ymateb.

Ni ddylai'r cyflogwr anwybyddu'r gŵyn hon, ond byddai'n rhesymol gofyn iddo am fwy o fanylion. Er enghraifft, gallai peth o'r wybodaeth fod mewn e-byst, a gallai'r cyflogwr yn rhesymol ofyn am frasamcan o'r dyddiadau y danfonwyd yr e-byst a phwy a'u danfonodd, er mwyn ei helpu i ddod o hyd i'r hyn mae angen ei wybod.

Gallai hefyd fod yn ddefnyddiol i'r cyflogwr ofyn a yw'r aelod staff yn ceisio gwybodaeth nad yw'n berthnasol i'w gyflogaeth. Er enghraifft, gallai fod yn ceisio gwybodaeth sy'n ymwneud â chwyn a wnaeth fel cwsmer yn yr archfarchnad.

Ni allwch fynnu bod yr ymgeisydd yn lleihau cwmpas ei gais, ond yn hytrach ei fod yn darparu manylion ychwanegol a fydd yn eich helpu i ddod o hyd i'r wybodaeth y gofynnwyd amdani. Felly, os yw ymgeisydd yn gofyn am 'yr holl wybodaeth rydych yn ei chadw' amdano, mae ganddo hawl i wneud hynny. Gallwch ofyn iddo ddarparu gwybodaeth ynghylch cyd-destun y prosesu posibl a fu ar yr wybodaeth, ac ynghylch dyddiad tebygol y prosesu, petai hynny'n gymorth i ddelio â'r cais.

Fel gyda chais a anfonir heb y ffi ddyledus, ni ddylech anwybyddu cais dim ond oherwydd eich bod angen mwy o wybodaeth gan yr ymgeisydd. Ni ddylech ohirio gofyn am hyn, ond yn hytrach dylech sicrhau bod yr ymgeisydd yn gwybod eich bod angen mwy o wybodaeth a dylech ddweud wrtho pa fanylion rydych eu hangen. Gan gymryd eich bod wedi gwneud hynny, nid yw'r cyfnod o 40 diwrnod a ganiateir i ymateb i'r cais yn dechrau nes eich bod wedi derbyn y ffi ddyledus ac unrhyw wybodaeth ychwanegol rydych ei hangen.

Mae'r math o wybodaeth y gallai fod yn rhesymol i chi ofyn amdano yn cynnwys, lle cedwir data personol ar ffurf electronig, gwybodaeth am y math o ddata electronig a geisir (ffurflen gais, llythyr, e-bost ac ati) a brasamcan o'r adeg y crëwyd y data. Gallai hyn fod o gymorth wrth ichi benderfynu a yw'r wybodaeth a geisir yn debygol o fod wedi'i dileu neu ei harchifo (naill ai drwy gael ei hargraffu a'i chadw mewn archif ddata llaw, neu ei thynnu oddi ar eich systemau data electronig 'byw' a'i chadw mewn archif electronig).

Cofnodion electronig

Yn y rhan fwyaf o achosion, gellir dod o hyd i wybodaeth a gadwyd ar ffurf electronig a'i hadfer yn ddiraffferth. Fodd bynnag, gan ei bod yn anodd dileu'n llwyr bob cofnod electronig, gellid dadlau bod hawl gan yr ymgeisydd i ofyn am fynediad at ddata personol nad oes gennych chi fynediad hawdd ato – gan eich bod yn dal i gadw'r data ac y gallech, gydag amser a gwahanol raddau o arbenigedd technegol, ei hadfer.

Mae'n debygol eich bod wedi tynnu gwybodaeth oddi ar eich systemau 'byw' mewn nifer o ffyrdd gwahanol. Gallai'r wybodaeth fod wedi:

- ei 'harchifo' i'w chadw;
- ei chopio ar ffeiliau wrth gefn; neu
- ei 'dileu'.

Gwybodaeth wedi archifo a chofnodion wrth gefn

Yn siarad yn gyffredinol, mae gwybodaeth yn cael ei harchifo oherwydd eich bod yn penderfynu cadw copi rhag ofn bod ei angen yn y dyfodol, er eich bod yn dymuno tynnu'r wybodaeth oddi ar eich systemau byw.

Dylech fod â dulliau gweithredu sy'n medru dod o hyd i ddata personol sydd wedi ei archifo'n electronig neu mewn ffeiliau wrth gefn, a'i adfer. Gallai'r broses o gael mynediad at ddata a archifwyd yn electronig, neu ddata sydd mewn ffeiliau wrth gefn, fod yn fwy cymhleth na chael mynediad at ddata 'byw'. Fodd bynnag, gan eich bod wedi penderfynu cadw copïau o'r data er mwyn medru cyfeirio ato yn y dyfodol, yn ôl pob tebyg gallwch ddod o hyd i'r data, o bosibl drwy gymorth yr ymgeisydd yn rhoi gwybodaeth i chi am ei

leoliad. Felly bydd gofyn i chi ddarparu gwybodaeth o'r fath wrth ymateb i SAR.

Efallai nad yw systemau archifo electronig a ffeiliau wrth gefn yn defnyddio mecanwaith chwilio sydd mor soffistigedig â systemau 'byw', a gallwch ofyn i ymgeisydd roi cyd-destun digonol i chi ynghylch ei gais fel y bydd yn eich galluogi i wneud chwiliad sydd wedi'i anelu at rywbeth penodol. Gallai gallu'r ymgeisydd i wneud hynny effeithio'n sylweddol ar b'un a fedrwch ddod o hyd i'r hyn mae ei angen. Er hynny, i'r graddau mae eich mecanwaith chwilio yn caniatáu i chi ddod o hyd i ddata a archifwyd neu a roddwyd ar ffeiliau wrth gefn at eich dibenion eich hun, dylech fynd i'r un drafferth wrth geisio dod o hyd i wybodaeth er mwyn ymateb i SAR.

Os yw'r cais yn benodol berthnasol i wybodaeth sydd ar eich systemau 'byw' ac a gedwir mewn copïau wrth gefn, mae'n rhesymol ystyried a oes unrhyw dystiolaeth fod gwahaniaeth hanfodol rhwng y data wrth gefn a'r hyn a gedwir ar y systemau 'byw' ac a gyflwynwyd i'r ymgeisydd. Os nad oes dystiolaeth fod gwahaniaeth hanfodol, ni fydd y Comisiynydd Gwybodaeth yn mynd ati i orfodi hawliau mynediad at wybodaeth mewn perthynas â'r cofnodion wrth gefn.

Gwybodaeth a ddilëwyd

Caiff gwybodaeth ei 'dileu' pan ydych yn ymdrechu i gael gwared arni'n barhaol a phan nad oes bwriad gennych i geisio cael mynediad ati byth eto. Barn y Comisiynydd Gwybodaeth yw, os ydych yn dileu data personol sy'n cael ei chadw ar ddull electronig drwy ei symud (cyn belled ag y mae hynny'n bosibl) oddi ar eich systemau cyfrifiadurol, nid yw'r ffaith y gallai arbenigedd technegol drudfawr eich galluogi chi i'w hail-greu yn golygu bod yn rhaid i chi fynd i drafferth o'r fath wrth ymateb i SAR. Ni fyddai'r Comisiynydd yn mynd ati i gymryd camau gorfodaeth yn erbyn sefydliad na ddefnyddiodd fesurau eithafol i ail-greu data personol a gadwyd ar ffurf electronig ac a 'ddilëwyd'. Nid yw'r Comisiynydd yn mynnu bod sefydliadau yn treulio'u hamser yn ymdrechu i ail-gorffori gwybodaeth maent wedi ei dileu fel rhan naturiol o'u rheolaeth cofnodion.

Wrth ddod i'r farn hon, mae'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi ystyried mai diben mynediad at wybodaeth yw er mwyn galluogi unigolion i ganfod pa wybodaeth sy'n cael ei chadw amdanynt, i wirio ei chywirdeb, ac i sicrhau ei bod yn gyfoes, a lle mae'r wybodaeth yn anghywir i wneud cais am gael yr wybodaeth wedi'i chywiro neu ofyn am iawndal os yw'r camgymeriadau wedi achosi niwed neu ofid iddynt. Fodd bynnag, os ydych wedi dileu'r

wybodaeth, ni allwch bellach ei defnyddio wrth gymryd penderfyniadau sy'n dwyn effaith ar yr unigolyn. Felly nid yw'r camgymeriadau yn cael unrhyw effaith gan na fyddwch chi na neb arall bellach yn cael mynediad at yr wybodaeth.

Am wybodaeth bellach ynghylch gwybodaeth a ddilëwyd, gweler canllaw Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth [Deleting personal data](#) os gwelwch yn dda.

Gwybodaeth a geir mewn e-byst

Mae cynnwys yr e-byst a gedwir ar eich systemau cyfrifiadurol, wrth gwrs, yn ffurf ar gofnod electronig mae'r egwyddorion cyffredinol a nodir uchod yn berthnasol iddo. Er mwyn osgoi amheuaeth, ni ddylid ystyried bod cynnwys e-bost wedi'i ddileu dim ond oherwydd ei fod wedi cael ei symud i ffolder 'Deleted items' y defnyddiwr.

Gall fod yn neilltuol anodd i ddod o hyd i wybodaeth y cyfeirir ati mewn SAR os cynhwysir hi mewn e-byst a archifwyd ac a dynnwyd oddi ar eich systemau 'byw'. Er hynny, nid yw'r hawl i fynediad gwrthrych yn cael ei chyfyngu i ddata personol sy'n hawdd i chi ddarparu, ac ni ellir defnyddio'r eithriad ymdrech anghymesur (gweler Pennod 8 am ragor o fanylion) i gyfiawnhau gwrthodiad cynhwysfawr o SAR, gan ei fod yn gofyn i chi wneud beth bynnag sy'n gymesur dan yr amgylchiadau. Gallwch ofyn, wrth gwrs, i'r ymgeisydd roi peth cyd-destun i chi a fyddai'n eich helpu i ddod o hyd i'r hyn mae ei angen.

Fel rheol, unwaith eich bod wedi dod o hyd i'r e-byst perthnasol, mae'n annhebygol y bydd darparu copi o'r data personol sydd ynddynt yn costio crocbris.

Gwybodaeth wedi storio ar offer cyfrifiadurol personol

Dim ond os ydych chi'n rheolydd data gyda golwg ar y data penodol hwnnw y mae'n rhaid i chi ddarparu data personol mewn ymateb i SAR. Yn y rhan fwyaf o achosion, felly, nid oes raid i chi gyflenwi data personol os yw'n cael ei gadw ar systemau cyfrifiadurol rhywun arall yn hytrach nag ar eich rhai chi (yr eithriad amlwg yw lle mai prosesydd data yw'r person hwnnw (gweler pennod 5)). Fodd bynnag, os yw data personol yr ymgeisydd yn cael ei gadw ar offer o eiddo eich staff (megis ffôn clyfar neu gyfrifiaduron cartref) neu mewn cyfrifon e-bost preifat, beth yw'r sefyllfa pan dderbyniwch SAR?

Mae'n arfer da cael polisi sy'n cyfyngu ar yr amgylchiadau lle gall staff gadw gwybodaeth am gwsmeriaid, cysylltiadau, neu weithwyr

eraill ar eu dyfeisiadau eu hunain, neu mewn cyfrifon e-bost personol. Mae rhai sefydliadau yn galluogi staff i fedru cael mynediad at eu systemau drwy reolaeth o bell (e.e. drwy gyfrwng gwefan ddiogel), ond mae'r rhan fwyaf yn debygol o wahardd cadw data personol ar offer nad yw'r sefydliad yn ei reoli. Er hynny, os caniatewch i staff gadw data personol ar eu dyfeisiadau eu hunain, gallant fod yn prosesu'r data hwnnw ar eich rhan, ac os felly byddai o fewn terfynau'r SAR a dderbyniwch. Byddai'r rheswm dros gadw'r wybodaeth, a'i gyd-destun, yn debygol o fod yn berthnasol yn hyn o beth. Ni fyddwn yn disgwyl i chi ddweud wrth staff am chwilio drwy e-byst personol, neu eu dyfeisiadau personol, wrth ymateb i SAR oni bai fod gennych reswm da dros gredu eu bod yn cadw data personol perthnasol.

Am wybodaeth bellach ynghylch yr hyn mae angen i chi ei ystyried wrth ganiatáu defnyddio dyfeisiadau personol i brosesu data personol rydych chi'n gyfrifol amdano, gweler ein canllaw [Bring your own device \(BYOD\)](#).

Fel yr esboniwn ym mhennod 11, mae gan y Comisiynydd Gwybodaeth ryddid i benderfynu a yw am fynd ati i gymryd camau gorfodaeth lle torrwyd amodau'r SAR. Ni fyddai'r Comisiynydd yn gweithredu felly pe byddai'n amlwg yn beth afresymol i'w wneud.

Cofnodion eraill

Os ydych yn cadw gwybodaeth am yr ymgeisydd mewn dull heblaw ffurf electronig (e.e. mewn ffeiliau papur neu mewn cofnodion microffish), bydd angen i chi benderfynu a yw hynny'n rhan o hawl gwrthrych am wybodaeth. Bydd angen i chi gymryd penderfyniad cyffelyb os tynnwyd cofnodion electronig oddi ar eich systemau byw a'u harchifo mewn ffurf nad yw'n ffurf electronig.

Bydd penderfynu a yw'r wybodaeth a geir mewn cofnodion copi caled o'r fath, yn ddata personol y gellir cael mynediad ato drwy gyfrwng hawl i fynediad at wybodaeth, yn ddibynnol yn bennaf ar p'un a yw'r cofnodion nad ydynt yn rhai electronig yn cael eu cadw mewn 'system ffeilio berthnasol', a hefyd p'un a yw'r ymgeisydd wedi rhoi digon o gyd-destun i chi fedru dod o hyd iddi.

Am ganllaw pellach ar y systemau ffeilio perthnasol, gweler [The Guide to Data Protection](#) a [FAQs and answers about relevant filing systems](#) ar ein gwefan. Yn siarad yn gyffredinol, fodd bynnag, fe ystyriwn fod system ffeilio berthnasol yn bodoli lle cedwir gwybodaeth am unigolion mewn ffordd sy'n ddigon systematig a

strwythuredig i fedru caniatáu mynediad parod at wybodaeth benodol am yr unigolion hynny.

Addasu data ar ôl derbyn SAR

Mae'r DPA yn nodi bod a wnelo SAR â gwybodaeth a gedwir ar yr adeg y gwnaed y cais. Fodd bynnag, mewn sawl achos, gall defnydd arferol o'r data olygu ei fod yn cael ei ddiwygio, neu hyd yn oed ei ddileu, tra ydych chi'n delio â'r cais. Felly byddai'n rhesymol i chi gyflenwi'r wybodaeth sydd gennych pan ydych yn anfon yr ymateb, hyd yn oed os yw'n wahanol i'r hyn a oedd gennych pan dderbynioch chi'r cais.

Fodd bynnag, nid yw'n dderbyniol i ddiwygio neu ddileu data pe na fyddech wedi gwneud hynny'n arferol. Mae'n drosedd i sefydliadau sydd o dan awdurdod y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (FOIA) wneud diwygiad o'r fath gyda'r bwriad o rwystro'i ddatgeliad.

Mae'n bosibl y bydd gan sefydliad sy'n darganfod ac yn adfer yn effeithiol yr wybodaeth sydd ei hangen er mwyn ymateb i SAR, y dangosyddion arfer da a ganlyn:

Chwilio am eglurhad

Mae ffurflen safonol ddewisol ar gael er mwyn cyflwyno SAR. Mae'r ffurflen yn gwahodd yr ymgeisydd i roi manylion ynghylch yr wybodaeth benodol y gofynnwyd amdani. Yn aml, drwy leihau cwmpas y cais (lle mae hynny'n bosibl), gallwch osgoi chwilio'n ddiangen neu anfon llawer iawn o wybodaeth at yr ymgeisydd nad yw hwnnw eisiau ei chael ac nad yw'n ei disgwyl.

Fel rhan o'r broses o gofnodi SAR, gwirir eglurder y cais. Os nad yw'n amlwg ar unwaith at beth mae'r cais yn cyfeirio neu lle gellir cael gafael ar yr wybodaeth, mae'r sefydliad yn cysylltu â'r ymgeisydd ar y ffôn er mwyn cael eglurhad.

Gwirir hefyd fod y sefydliad yn gwybod i ba gyfeiriad i anfon yr ymateb.

Cofrestru asedau

Mae cofrestr ased gwybodaeth yn bodoli, ac mae'n nodi ble a sut y cedwir data personol. Mae hyn yn help i gyflymu'r broses o gael gafael ar yr wybodaeth angenrheidiol er mwyn ymateb i'r SAR. Ceir perchenogion gwybodaeth am asedau, ac adolygir y gofrestr yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei bod yn gyfamserol.

Polisiau dargadw a dileu

Dogfennwyd polisiau dargadw a dileu perthynol i'r wybodaeth bersonol mae'r sefydliadau yn ei chadw. Mae gwahanol gyfnodau dargadw yn berthnasol i wahanol ddosbarthiadau o wybodaeth, yn ddibynnol ar y diben dros ei chadw.

Monitro

Os yw'r sefydliad yn derbyn nifer sylweddol o SARau, mae strwythurau rheolaeth cymwys yn bodoli er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu prosesu'n effeithiol, ac y cânt eu hateb yn briodol. Er enghraifft, mae'r tîm sy'n gyfrifol am ddelio â'r SARau yn cynnal cyfarfod wythnosol er mwyn trafod datblygiad y SARau ac i ymchwilio i bob achos sydd fel petai'n cael ei ddal yn ôl.

7. Ymdrin â cheisiadau gwrthrych am wybodaeth sy'n ymwneud â gwybodaeth am bobl eraill

Y rheol sylfaenol

Gall ymateb i gais gwrthrych am wybodaeth (SAR) olygu darparu gwybodaeth sy'n berthnasol i'r ymgeisydd ac i unigolyn arall.

Enghraifft

Mae gweithiwr yn cyflwyno cais i'w chyflogwr am gopi o'i ffeil adnoddau dynol. Mae'r ffeil yn cynnwys gwybodaeth sy'n datgelu pa reolwyr a chydweithwyr sydd wedi cyfrannu at (neu a drafodir yn) y ffeil honno. Bydd hyn yn peri bod angen i chi gymrodeddu rhwng hawl y gweithiwr i fynediad at wybodaeth, a hawliau'r trydydd partion o ran eu data personol hwy.

Mae Deddf Diogelu Data 1998 (DPA) yn datgan nad oes raid i chi gydymffurfio â SAR pe byddai gwneud hynny'n golygu datgelu gwybodaeth am unigolyn arall y gellir ei adnabod ar sail yr wybodaeth honno, ac eithrio:

- lle mae'r unigolyn arall wedi caniatáu'r dadleniad; neu
- lle mae'n rhesymol dan yr holl amgylchiadau i gydymffurfio â'r cais heb ganiatâd yr unigolyn hwnnw.

Felly, er y gallwch o dro i dro ddatgelu gwybodaeth sy'n ymwneud â thrydydd parti, mae angen i chi benderfynu a yw'n gymwys i wneud hynny ym mhob achos. Bydd y penderfyniad hwn yn golygu cydbwysu hawl gwrthrych y data i gael mynediad at yr wybodaeth, a hawl yr unigolyn arall o ran ei ddata personol ef. Os yw'r person arall yn rhoi caniatâd i chi ddatgelu'r wybodaeth amdano, byddai'n afresymol peidio â gwneud hynny. Fodd bynnag, os na cheir caniatâd i wneud hynny, mae'n rhaid i chi benderfynu a ddylech ddatgelu'r wybodaeth p'un bynnag.

Dylech gymryd penderfyniadau ynghylch datgelu gwybodaeth trydydd parti fesul achos unigol. Ni ddylech weithredu polisi cyffredinol o ddal yr wybodaeth yn ôl.

Er mwyn osgoi amheuaeth, ni chewch wrthod darparu gwrthrych am wybodaeth at ddata personol am unigolyn dim ond oherwydd eich bod wedi derbyn yr wybodaeth honno gan drydydd parti. Mae'r rheolau ynghylch gwybodaeth trydydd parti, a ddisgrifir yn y bennod hon, yn berthnasol yn unig yng nghyd-destun data personol sy'n cynnwys gwybodaeth am yr unigolyn sy'n wrthrych y cais a gwybodaeth am rywun arall.

Y dull tri cham o ymdrin â gwybodaeth am drydydd parti

I'ch helpu i benderfynu a ddylech ddatgelu gwybodaeth am unigolyn sy'n drydydd parti, byddai o gymorth i chi ddilyn y broses tri cham a ddisgrifir isod. Mae canllaw Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth '[Access to information held in complaint files](#)' hefyd yn rhoi cyngor pellach ynghylch hyn.

Cam 1 – A yw'r cais yn mynnu bod gwybodaeth sy'n dadlennu pwy yw trydydd parti yn cael ei datgelu?

Dylech ystyried a yw'n bosibl cydymffurfio â'r cais heb ddatgelu gwybodaeth am, a dweud pwy yw, unigolyn sy'n drydydd parti. O wneud hynny, dylech ystyried yr wybodaeth rydych yn ei datgelu ac unrhyw wybodaeth rydych yn credu'n rhesymol y gallai fod ym meddiant yr ymgeisydd, neu y gallai gael gafael arni, ac a fyddai'n dadlennu pwy yw'r unigolyn sy'n drydydd parti.

Enghraifft

Yn yr enghraifft flaenorol ynghylch cais gweithiwr am ei ffeil adnoddau dynol, hyd yn oed pe cyfeirid at reolwr penodol wrth deitl ei swydd yn unig, mae'n debygol y byddai'n wybyddus pwy ydyw ar sail gwybodaeth sydd ym meddiant y gweithiwr sy'n cyflwyno'r cais.

Gan eich bod dan orfodaeth i ddarparu gwybodaeth yn hytrach na dogfennau, gallwch ddileu enwau neu olygu dogfennau os nad yw'r wybodaeth trydydd parti yn ffurfio rhan o'r wybodaeth y gofynnwyd amdani.

Fodd bynnag, os yw'n amhosibl gwahanu'r wybodaeth trydydd parti oddi wrth yr hyn y gofynnwyd amdano a chydymffurfio â'r cais ar yr un pryd, mae'n rhaid i chi wneud sylw o'r ystyriaethau a ganlyn.

Cam 2 – A yw'r unigolyn trydydd parti wedi rhoi caniatâd?

Yn ymarferol, y sail orau dros gyfiawnhau datgelu gwybodaeth trydydd parti wrth ymateb i SAR yw bod y trydydd parti wedi rhoi caniatâd. Mae felly yn arfer da i ofyn i drydydd parti perthnasol am ganiatâd i ddatgelu data personol amdano mewn ymateb i SAR.

Fodd bynnag, nid oes raid i chi geisio cael caniatâd ac o dan rai amgylchiadau bydd yn amlwg ei bod yn rhesymol i chi ddatgelu gwybodaeth heb gael caniatâd, megis pan mae'r wybodaeth yn wybyddus i'r ymgeisydd p'un bynnag. Yn wir efallai na fydd bob amser yn gymwys i chi geisio cael caniatâd, er enghraifft petai gwneud hynny'n golygu datgelu data personol am yr ymgeisydd i'r trydydd parti.

Cam 3 – A fyddai'n beth rhesymol ym mhob amgylchiad i ddatgelu heb ganiatâd?

Yn ymarferol, weithiau gall fod yn anodd sicrhau caniatâd trydydd parti, e.e. gallai'r trydydd parti wrthod caniatâd, neu gallai fod yn anodd dod o hyd iddo. Os felly, mae'n rhaid i chi ystyried a yw'n 'rhesymol ym mhob amgylchiad' i ddatgelu gwybodaeth am y trydydd parti p'un bynnag.

Mae'r DPA yn darparu rhestr, ond nid rhestr gynhwysfawr, o ffactorau y dylid eu hystyried wrth gymryd y penderfyniad hwn. Mae'r rheini'n cynnwys:

- unrhyw ddyletswydd cyfrinachedd sy'n ddyledus i'r unigolyn trydydd parti;
- unrhyw gamau rydych wedi eu cymryd i geisio cael caniatâd yr unigolyn trydydd parti;
- a yw'r unigolyn trydydd parti yn abl i roi caniatâd; ac
- unrhyw beth a fynegwyd gan yr unigolyn trydydd parti yn nodi gwrthodiad.

Cyfrinachedd

Cyfrinachedd yw un o'r ffactorau mae'n rhaid i chi eu hystyried wrth benderfynu a ydych am ddatgelu gwybodaeth am drydydd parti heb eu caniatâd. Cyfyd dyletswydd cyfrinachedd pan mae gwybodaeth nad yw ar gael i'r cyhoedd (hynny yw, gwybodaeth sy'n wirioneddol 'gyfrinachol') wedi'i datgelu i chi gyda'r disgwyliad y bydd yn

parhau'n gyfrinachol. Gallai'r disgwyliad hwn fod yn ganlyniad i'r berthynas sydd rhwng y partiön. Er enghraifft, yn siarad yn gyffredinol byddai'r cysylltiadau a ganlyn yn dwyn yn eu sgil ddyletswydd cyfrinachedd mewn perthynas â gwybodaeth a ddatgelwyd.

- Meddygol (meddyg a chlaf)
- Cyflogaeth (cyflogwr a gweithiwr)
- Cyfreithiol (cyfreithiwr a chleient)
- Ariannol (banc a chwsmer)
- Gofal (cwnsler a chleient)

Fodd bynnag, ni ddylech ragdybio cyfrinachedd bob amser. Er enghraifft, ni chyfyd dyletswydd cyfrinachedd dim ond oherwydd bod 'cyfrinachol' wedi'i nodi ar lythyr (er y gall marcio llythyr yn y modd hwn arwyddo bod disgwyliad ei fod yn gyfrinachol). Efallai fod yr wybodaeth sydd mewn llythyr o'r fath ar gael yn gyffredin mewn man arall (ac felly nid oes iddo'r 'ansawdd cyfrinachedd angenrheidiol'), neu gallai fod ffactorau eraill, er enghraifft budd y cyhoedd, sy'n golygu na chyfyd rheidrwydd cyfrinachedd.

Yn y rhan fwyaf o achosion lle bodola dyletswydd cyfrinachedd, fel arfer bydd yn rhesymol i ddal yn ôl yr wybodaeth trydydd parti oni bai fod gennych ganiatâd unigolyn y trydydd parti i'w datgelu.

Ffactorau perthnasol eraill

Yn ogystal â'r ffactorau a restrir yn y DPA, mae'r pwyntiau a ganlyn yn debygol o fod yn berthnasol wrth gymryd penderfyniad ynghylch a yw'n rhesymol i ddatgelu gwybodaeth am drydydd parti wrth ymateb i SAR.

- **Gwybodaeth sy'n gyffredinol wybyddus i'r unigolyn sy'n cyflwyno'r cais.** Os yw'r wybodaeth trydydd parti wedi cael ei chyflwyno'n flaenorol i'r unigolyn sy'n cyflwyno'r cais, os yw eisoes yn wybyddus iddo, neu os yw ar gael i'r cyhoedd yn gyffredinol, bydd yn fwy tebygol ei bod yn rhesymol i chi ddatgelu'r wybodaeth honno. Mae'n dilyn fod gwybodaeth trydydd parti sy'n ymwneud ag aelod o staff (sy'n cyflawni eu dyletswyddau arferol), sy'n gwbl gyfarwydd i'r unigolyn sy'n cyflwyno'r cais oherwydd eu hymwneud blaenorol â'i gilydd, yn fwy tebygol o gael ei datgelu na gwybodaeth sy'n ymwneud ag unigolyn preifat dienw.
- **Amgylchiadau sy'n ymwneud â'r unigolyn sy'n cyflwyno'r cais.** Mae pa mor bwysig yw'r wybodaeth i'r

ymgeisydd hefyd yn ffactor berthnasol. Mae'n rhaid pwysu'r angen am gadw cyfrinachedd trydydd parti yn erbyn hawl yr ymgeisydd i gael mynediad at wybodaeth am ei fywyd ef neu hi. Felly, yn ddibynnol ar arwyddocâd yr wybodaeth i'r ymgeisydd, efallai ei bod yn gymwys ei datgelu hyd yn oed pan mae'r trydydd parti wedi gwrthod caniatâd.

- **Cofnodion iechyd, addysg, a gwaith cymdeithasol.** Fel yr esboniwyd ym mhenodau 9 a 10, mae rheolau arbennig yn dod i rym gyda golwg ar fynediad gwrthrych at gofnodion iechyd, addysg, a gwaith cymdeithasol. Yn ymarferol, mae'r rheolau hyn yn golygu y dylid datgelu gwybodaeth berthnasol am bobl broffesiynol ym myd iechyd, addysg a gwaith cymdeithasol (sy'n gweithredu yn rhinwedd eu swydd broffesiynol) wrth ymateb i SAR.

Ymateb i'r cais

Os ydych yn penderfynu datgelu gwybodaeth am drydydd parti mewn ymateb i SAR neu'n penderfynu ei dal yn ôl, byddwch angen ymateb i'r ymgeisydd. Os yw'r trydydd parti wedi rhoi caniatâd i ddatgelu gwybodaeth amdano, neu os ydych chi'n fodlon ei bod yn rhesymol dan yr holl amgylchiadau i'w datgelu heb ei ganiatâd, dylech ddarparu'r wybodaeth yn yr un ffordd ag y darperir unrhyw wybodaeth arall wrth ymateb i SAR.

Os nad ydych wedi sicrhau caniatâd y trydydd parti ac os nad ydych yn fodlon y byddai'n rhesymol dan yr holl amgylchiadau i ddatgelu'r wybodaeth trydydd parti, yna dylech ei dal yn ôl. Fodd bynnag, mae'n dal yn ofynnol i chi drosglwyddo cymaint o'r wybodaeth y gofynnwyd amdani ag y gallwch chi heb ddatgelu pwy yw'r unigolyn trydydd parti. Yn ddibynnol ar yr amgylchiadau, efallai y bydd yn bosibl darparu peth gwybodaeth, wedi i chi ei golygu neu ei 'hailolygu' er mwyn dileu gwybodaeth a fyddai'n datgelu pwy yw'r unigolyn trydydd parti.

Mae'n rhaid i chi fedru cyfiawnhau eich penderfyniad i ddatgelu, neu ddal yn ôl, wybodaeth am drydydd parti, felly mae'n arfer da i gadw cofnod o'ch penderfyniad, a'r rheswm drosto. Er enghraifft, byddai'n ddoeth nodi pam y bu i chi ddewis peidio â cheisio caniatâd, neu pam ei bod yn anaddas i chi wneud hynny dan yr amgylchiadau.

8. Cyflenwi gwybodaeth i'r ymgeisydd

Gwybodaeth mae'n rhaid ei chyflenwi

Fel arfer ffocws cais gwrthrych am wybodaeth (SAR) yw cyflenwi copi o ddata personol yr ymgeisydd. Yn y bennod hon rydym yn ystyried nifer o faterion sy'n ymwneud â chyflenwi'r wybodaeth honno. Fodd bynnag, dylech gadw mewn cof fod mynediad gwrthrych yn rhoi hawl i unigolyn i gael mwy na dim ond copi o'u data personol. Mae hawl gan unigolyn hefyd:

- i gael gwybod a oes unrhyw ddata personol yn cael ei brosesu – felly, os nad oes gennych unrhyw ddata personol am yr ymgeisydd, mae'n dal yn rhaid i chi ymateb a rhoi gwybod hynny iddynt;
- i gael disgrifiad o'r data personol, pam mae'n cael ei brosesu, ac a fydd yn cael ei roi i unrhyw sefydliadau neu bobl eraill; ac
- i gael manylion ynghylch ffynhonnell y data (os yw'n wybyddus).

Gallai'r wybodaeth hon gael ei chynnwys yn y copi o'r data personol rydych yn ei gyflenwi. I'r graddau nad yw, fodd bynnag, mae'n rhaid i chi gofio cyflenwi'r wybodaeth hon yn ychwanegol at y copi o'r data personol ei hun wrth ymateb i SAR.

Mae'r hawl i gael disgrifiad o'r sefydliadau neu o'r bobl y gellid trosglwyddo'r wybodaeth iddynt, yn hawl i gael gwybodaeth fras am hynny; nid yw'n hawl i dderbyn enwau'r sefydliadau neu'r bobl hynny.

Gall yr ymgeisydd hefyd ofyn am eglurhad o'r rhesymeg sy'n sail i unrhyw benderfyniadau awtomataidd a wnaed amdano ef neu hi, er enghraifft penderfyniad cyfrifiadurol i ganiatáu neu i wrthod credyd, neu asesiad o berfformiad gwaith (ac eithrio os yw'r wybodaeth yn gyfrinach fasnachol). Dim ond os gofynnwyd yn benodol am yr wybodaeth ychwanegol hon mae'n rhaid i chi ei darparu.

Cyn darparu unrhyw wybodaeth fel ymateb i SAR, dylech hefyd wirio fod gennych gyfeiriad post cywir yr ymgeisydd, neu gyfeiriad e-bost (neu'r ddau). Os ydych yn cyflenwi gwybodaeth drwy gyfrwng ffacs (ac rydym yn argymhell mai dim ond ar gais penodol yr ymgeisydd y gwnewch hynny), yna mae'n rhaid i chi sicrhau eich bod yn ei hanfon i'r rhif ffacs cywir.

Penderfynu pa wybodaeth i'w chyflenwi

Gall dogfennau neu ffeiliau gynnwys gwybodaeth sy'n ddata personol yr ymgeisydd, data personol am bobl eraill, a gwybodaeth nad yw'n ddata personol o gwbl. Golyga hyn eich bod weithiau angen ystyried, yn unigol, bob dogfen o fewn ffeil, a hyd yn oed gynnwys y ddogfen benodol, er mwyn asesu'r wybodaeth sy'n cael ei chynnwys.

Efallai y byddai'n haws (ac yn fwy defnyddiol) rhoi i'r ymgeisydd gymysgedd o'r holl ddata personol a gwybodaeth arferol sy'n berthnasol i'w gais, yn hytrach nag edrych ar bob dogfen mewn ffeil er mwyn penderfynu ai ei ddata personol ef yw ai peidio. Mae cymryd agwedd o'r fath yn debygol o fod yn addas lle nad oes dim o'r wybodaeth yn arbennig o sensitif neu'n ddadleuol neu'n cyfeirio at unigolion trydydd parti.

Ar ba ffurf mae'n rhaid cyflenwi'r wybodaeth?

Unwaith rydych wedi lleoli ac adfer y data personol sy'n berthnasol i'r cais, mae'n rhaid i chi ei drosglwyddo i'r ymgeisydd ar ffurf ddealladwy. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'n rhaid trosglwyddo'r wybodaeth hon i'r ymgeisydd drwy gyflenwi copi iddo ef neu hi mewn dull parhaol. Gallwch gydymffurfio â'r gofyniad hwn drwy ddarparu ffotocopi neu allbrint o'r wybodaeth berthnasol.

Ond os yw'r ymgeisydd wedi cyflwyno SAR yn electronig, mae'n debygol y bydd yn bodloni – ac efallai y byddai'n well ganddo – dderbyn yr ymateb yn electronig hefyd. Mae'n arfer da gwirio'i ddewis. Os cytuna i dderbyn gwybodaeth ar ffurf electronig, byddwch yn cydymffurfio â'r DPA drwy ei anfon ato yn y dull hwnnw.

Mae rhai ymgeiswyr yn dechrau gofyn am gael derbyn data personol penodol (er enghraifft data ynghylch defnydd o ynni domestig) mewn 'fformat agored ailddefnyddiadwy', er enghraifft ffeil CSV. Mae cynnig data yn y fformat hwn yn ei gwneud yn haws o lawer i'r ymgeisydd ddefnyddio'r data dan ei reolaeth mewn perthynas â gwasanaethau eraill. Byddai'r Comisiynydd Gwybodaeth yn eich annog i ystyried y dichonoldeb o alluogi ymgeiswyr i dderbyn eu data ar ffurf fformatau agored ailddefnyddiadwy, ar gyfer setiau data addas. Yn amlwg, rydym yn sylweddoli bod yn rhaid ystyried cost ac ymarferoldeb gwneud hynny. Mae cymryd agwedd o'r fath yn gyson â phrosiect 'Midata' y Llywodraeth, prosiect sy'n amcanu at ganiatáu i bobl weld, cael mynediad at, a

defnyddio eu data personol a'u trafodion mewn ffordd gludadwy, ddiogel.

Mae cais gwrthrych am wybodaeth yn darparu hawl i weld yr wybodaeth sy'n cael ei chynnwys mewn data personol, yn hytrach na hawl i weld copïau o'r dogfennau sy'n cynnwys yr wybodaeth honno. Fe gewch felly ddarparu'r wybodaeth ar ffurf trawsgrifiadau o'r dogfennau perthnasol (neu o adrannau o ddogfennau sy'n cynnwys data personol), neu drwy ddarparu allbrint o'r wybodaeth berthnasol oddi ar eich systemau cyfrifiadurol. Er mai'r ffordd rwyddaf o ddarparu'r wybodaeth berthnasol yn aml yw drwy ddarparu copïau o'r dogfennau gwreiddiol, nid oes raid i chi wneud hynny.

Egluro'r wybodaeth a gyflenwir

Mae'r DPA yn mynnu bod yr wybodaeth rydych yn ei chyflenwi i'r unigolyn mewn dull dealladwy. Ar ei fwyaf sylfaenol mae hyn yn golygu y dylai'r wybodaeth fod yn ddealladwy i'r person cyffredin. Fodd bynnag, nid yw'r DPA yn mynnu eich bod yn sicrhau bod yr wybodaeth yn cael ei darparu mewn dull sy'n ddealladwy i'r unigolyn penodol sy'n cyflwyno'r cais.

Enghraifft

Mae unigolyn yn gwneud cais am ei ddata personol. Wrth baratoi'r ymateb, rydych yn sylwi bod llawer ohono ar ffurf cod. Er enghraifft, mae presenoldeb mewn sesiwn hyfforddi penodol yn cael ei gofnodi fel 'A', tra mae diffyg presenoldeb mewn digwyddiad cyffelyb yn cael ei gofnodi fel 'M'. Hefyd, ceir peth gwybodaeth ar ffurf nodiadau a wnaed â llaw, sy'n anodd eu darllen. Heb fynediad at allwedd y sefydliad neu fynegai i esbonio'r wybodaeth hon, byddai'n amhosibl i unrhyw un tu allan i'r sefydliad ei ddeall. Yn yr achos hwn, mae'r Ddeddf yn mynnu eich bod chi'n esbonio ystyr yr wybodaeth sydd mewn cod. Fodd bynnag, er y byddai'n arfer da i wneud hynny, nid yw'r Ddeddf yn mynnu eich bod yn dehongli'r nodiadau a ysgrifennwyd yn wael, gan nad yw ystyr 'ffurf ddealladwy' yn cael ei ymestyn i olygu 'gwneud yn ddealladwy'.

Enghraifft

Rydych yn derbyn SAR oddi wrth rywun sydd â'u sgiliau deall Saesneg yn wan. Rydych yn anfon

ymateb ac maent yn gofyn i chi gyfieithu'r wybodaeth honno. Nid yw'r Ddeddf yn mynnu eich bod yn gwneud hynny gan fod yr wybodaeth ar ffurf ddealladwy, hyd yn oed os nad yw'r person sy'n ei derbyn yn ei deall i gyd. Fodd bynnag, byddai'n arfer da i chi eu helpu i ddeall yr wybodaeth sydd gennych amdanynt.

Enghraifft
Mae eich sefydliad wedi ei sefydlu yng Nghymru ac iaith eich busnes yw Cymraeg, nid Saesneg, sy'n golygu bod y dogfennau sydd gennych i gyd yn Gymraeg. Rydych yn derbyn SAR gan rywun nad yw'n medru'r iaith nac yn ei deall. Ar ôl derbyn eich ymateb, maent yn gofyn i chi gyfieithu'r wybodaeth. Nid yw'r Ddeddf yn gofyn i chi wneud hynny gan fod yr wybodaeth ar ffurf ddealladwy, hyd yn oed os nad yw'r person yn medru ei ddeall. Fodd bynnag, byddai'n arfer da i chi ei helpu i ddeall yr wybodaeth sydd gennych amdanynt. Wrth gwrs gall fod gofyn arnoch hefyd, fel achos ar wahân, gyfieithu'r wybodaeth dan ddeddfwriaeth yr iaith Gymraeg, ond mae hyn tu allan i derfynau'r DPA.

Cyflenwi gwybodaeth ar ffurf barhaol – sut i weithredu'r eithriad 'ymdrech anghymesur'

Mae dwy sefyllfa pan na roddir mewn grym y rheidrwydd i ddarparu copi o'r wybodaeth berthnasol i'r ymgeisydd 'ar ffurf barhaol'. Y cyntaf yw pan mae'r ymgeisydd yn cytuno ar drefn arall, a'r ail yw pan fyddai darparu copi o'r fath yn amhosibl, neu byddai'n golygu 'ymdrech anghymesur'.

Mae'r eithriad 'ymdrech anghymesur' yn adran 8(2) y DPA. Mae'r Llys Apêl wedi darparu eglurhad ar ei weithrediad yn ei ddyfarniadau yn 2017 yn achosion Dawson-Damer¹ ac Ittihadieh/Deer a Phrifysgol Rhydychen².

Nid yw'r DPA yn diffinio 'ymdrech anghymesur', ond mae'r llys wedi esbonio fod cwmpas i asesu, dan amgylchiadau achos penodol, a

¹ [Dawson-Damer ac Ors v Taylor Wessing LLP \[2017\] EWCA Civ 74](#)

² [Ittihadieh v 5-11 Cheyne Gardens RTM Co Ltd ac Ors; Deer v Prifysgol Rhydychen a Phrifysgol Rhydychen v Deer](#)

fyddai cydymffurfio â chais trwy ddarparu copi o'r wybodaeth y gofynnwyd amdani ar ffurf barhaol yn golygu cymaint o waith neu gostau nes byddai'n drech na hawl yr ymgeisydd i gael mynediad at ei ddata personol.

Eglurodd y llys hefyd wrth asesu a fyddai cydymffurfio â SAR yn golygu ymdrech anghymesur dan adran 8(2)(a) eich bod yna'n ystyried yr anawsterau a allai ddigwydd trwy gydol y broses o gydymffurfio gyda'r cais, gan gynnwys unrhyw anawsterau a wynebwyd wrth ganfod yr wybodaeth a geisiwyd.

Mae'r dull yma yn cydsynio gyda'r cysyniad o gyfranoledd yng nghyfraith yr UE, y maer DPA yn seiliedig arno. Wrth ymateb i SARau, rydym yn disgwyl i chi werthuso amgylchiadau penodol pob cais, gan gydbwysu unrhyw anawsterau sydd ynghlwm i gydymffurfio gyda'r cais yn erbyn y buddion y gallai'r wybodaeth gynnig i wrthrych y data, tra hefyd yn rhoi ystyriaeth i natur sylfaenol hawl gwrthrych i fynediad.

Er mwyn defnyddio'r eithriad, mae'r baich prawf arnoch chi fel rheolydd data i ddangos eich bod wedi cymryd pob cam rhesymol i gydymffurfio gyda'r SAR, ac y byddai'n anghymesur yn holl amgylchiadau'r achos i chi gymryd camau pellach.

Rydym yn ystyried ei bod yn arfer da i chi ymgysylltu gyda'r ymgeisydd, a chael sgwrs agored ynghylch yr wybodaeth sydd ei hangen. Gallai hyn eich helpu i leihau'r costau ac ymdrech fyddai'n codi fel arall wrth chwilio am yr wybodaeth.

Os byddwn yn derbyn cwyn am sut ydych wedi delio gyda chais gwrthrych am fynediad, gallasem ystyried eich parodrwydd i ymgysylltu gyda'r ymgeisydd a mantoli hyn yn erbyn budd a phwysigrwydd yr wybodaeth i'r gwrthrych, yn ogystal ag ystyried lefel cydweithrediad y gwrthrych gyda chi wrth ddelio â chais.

Hyd yn oed os gallwch ddangos y byddai cyflenwi copi o wybodaeth ar ddull parhaol yn golygu ymdrech anghymesur, mae'n dal yn rhaid i chi geisio cydymffurfio â'r cais mewn rhyw ffordd arall, os yw'r ymgeisydd yn cytuno. Gallai hyn ffurfio rhan ddefnyddiol o'ch trafodaethau gyda'r ymgeisydd, er mwyn nodi dull amgen o fodloni'r cais.

Enghraifft

Mae sefydliad wedi penderfynu y byddai cyflenwi copïau o gofnodion unigolyn ar ffurf barhaol yn golygu ymdrech anghymesur. Yn hytrach na gwrthod mynediad i'r unigolyn, maent yn cael

gair â hi ac yn cytuno y byddai'n well pe bai hi'n ymweld â'u hadeiladau ac yn edrych ar y dogfennau gwreiddiol. Maent hefyd yn cytuno, petai ganddynt ddogfennau mae hi'n dymuno mynd â hwy gyda hi, y gallant drefnu i ddarparu copïau ohonynt.

At hynny, hyd yn oed os nad oes raid i chi gyflenwi copi o'r wybodaeth mewn dull parhaol, mae gan yr ymgeisydd eto'r hawl:

- i gael gwybod a ydych yn prosesu eu data personol; ac
- os felly, i gael disgrifiad:
 - o'r data personol dan sylw;
 - o ddiben y prosesu; ac
 - o'r derbynydd neu o'r dosbarth o dderbynyddion; ac
- i dderbyn gwybodaeth ynghylch ffynhonnell y data personol.

Ymdrin â cheisiadau mynych, neu afresymol

Nid yw'r DPA yn cyfyngu ar y nifer o SARau y gall unigolyn eu cyflwyno i unrhyw sefydliad. Fodd bynnag, mae'n caniatáu peth rhyddid wrth ddelio â cheisiadau a wneir o fewn ysbeidiau afresymol. Mae'r Ddeddf yn datgan nad oes raid i chi gydymffurfio â chais sy'n union yr un fath, neu'n debyg iawn, i gais rydych wedi delio ag ef eisoes, oni bai fod egwyl resymol wedi mynd heibio rhwng y cais cyntaf ac unrhyw geisiadau dilynol.

Mae'r DPA yn cynnig peth cymorth wrth benderfynu a yw ceisiadau yn cael eu cyflwyno'n rhesymol ysbeidiol. Dywed y dylech ystyried a ganlyn.

- Natur y data – gan gynnwys o bosibl ystyried a yw'n ddeunydd arbennig o sensitif.
- Dibenion y prosesu – gallai hyn gynnwys p'un a yw'r prosesu'n debygol o achosi anfantais (niwed) i'r ymgeisydd.
- Pa mor aml mae'r data yn cael ei newid – os yw'n annhebygol fod gwybodaeth yn cael ei newid rhwng ceisiadau, efallai y byddwch yn penderfynu nad oes angen i chi ymateb i'r un cais ddwywaith.

Enghraifft

Mae llyfrgell yn derbyn SAR oddi wrth unigolyn a wnaeth gais tebyg fis yn gynharach. Mae'r wybodaeth yn gysylltiedig â'r adeg pan ymunodd yr unigolyn â'r llyfrgell, a'r eitemau a fenthyciwyd. Nid yw'r wybodaeth wedi newid o gwbl ers y cais cynharach. Gyda hyn mewn golwg, a'r ffaith fod yr unigolyn yn annhebygol o fod dan unrhyw anfantais os nad yw'r llyfrgell yn anfon unrhyw ddata personol wrth ymateb, nid oes raid i chi gydymffurfio â'r cais hwn. Fodd bynnag, byddai'n arfer da i ymateb drwy esbonio pam nad yw wedi darparu'r wybodaeth unwaith eto.

Enghraifft

Mae therapydd sy'n cynnig gwasanaeth cynghori sydd heb fod yn feddygol yn derbyn SAR oddi wrth gleient. Mae wedi ymateb i gais tebyg gan yr un cleient dair wythnos yn gynharach. Wrth ystyried a yw'r ceisiadau wedi eu cyflwyno o fewn ysbeidiau afresymol, dylai'r therapydd ystyried y ffaith fod y cleient wedi bod yn bresennol mewn pum sesiwn rhwng y ceisiadau, felly bydd llawer o wybodaeth newydd yn y ffeil. Dylai ymateb i'r cais hwn, a gallai ofyn i'r cleient gytuno mai dim ond yr wybodaeth 'newydd' sydd angen iddi ei hanfon. Ond byddai hefyd yn arfer da i drafod gyda'r cleient ddull gwahanol o ganiatáu i'r cleient gael mynediad at y nodiadau ar y sesiynau.

Os penderfynwch, am y rhesymau hyn, nad oes raid i chi ddarparu'r wybodaeth y gofynnir amdani, mae'n arfer da esbonio hyn i'r ymgeisydd. Efallai nad yw'n sylweddoli, er enghraifft, nad yw eich cofnodion wedi newid ers y cais blaenorol.

Mae'n bosibl y bydd gan sefydliad sydd â mecanwaith effeithiol er mwyn darparu gwybodaeth i geiswyr, y dangosyddion arfer da a ganlyn.

Fformatau ar-lein ac electronig

Lle mae hynny'n briodol, gall cwsmeriaid gael mynediad am ddim at wybodaeth bersonol drwy ddefnyddio gwefan ddiogel. Mae hwn yn wasanaeth da o safbwynt y cwsmer, ac mae'n debygol o leihau nifer y SARau mae'r sefydliad yn gorfod ymdrin â hwy.

Os gofynnir am hynny, darperir gwybodaeth bersonol mewn fformat peiriant-ddarllenadwy ac aildefnyddiadwy.

Cyfleusterau archwilio ar-lein

Sefydlwyd dulliau archwilio fel y gall ymgeiswyr weld, yn yr adeilad, yr wybodaeth y gofynnwyd amdani os yw'n swmpus, neu efallai y bydd raid iddynt wrth ragor o gefnogaeth neu eglurhad, neu'r ddeubeth.

Gwahaniaethiad copi

Cyn eu rhyddhau rhoddir stamp 'copi o fynediad at ddata' ar gopïau caled a wnaed fel ymateb i SAR. Gallai hyn fod o gymorth i ganfod ffynhonnell unrhyw ddatgeliad pellach o'r wybodaeth, pe bai angen hynny.

9. Eithriadau

Eithriadau a chyfyngiadau – cyffredinol

Mae Deddf Diogelu Data 1998 (DPA) yn cydnabod, dan rai amgylchiadau, y gallai fod gennych reswm dilys dros beidio â chydymffurfio â chais gwrthrych am wybodaeth (SAR), felly mae'n darparu nifer o eithriadau i'r ddyletswydd i wneud hynny. Lle mae eithriad yn berthnasol i ffeithiau cais penodol, gallwch wrthod darparu'r cyfan neu ran o'r wybodaeth y gofynnwyd amdani, yn ddibynnol ar yr amgylchiadau. Mae'n fater i chi benderfynu p'un ai i ddefnyddio eithriad neu beidio – nid yw'r DPA yn eich gorfodi i wneud hynny, felly mae'n agored i chi gydymffurfio â SAR hyd yn oed os gallech ddefnyddio eithriad.

Mae rhai cyfyngiadau (cyffelyb i eithriadau) hefyd wedi eu cynnwys yn narpariaethau mynediad gwrthrych y DPA. Er enghraifft, mae cyfyngiadau ar ddatgelu data personol am fwy nag un unigolyn mewn ymateb i SAR (gweler pennod 7).

Mae'r bennod hon o'r cod yn esbonio sut i weithredu'r prif eithriadau i'r ddyletswydd o ddarparu mynediad at wybodaeth. Nid yw pob eithriad yn gweithio yn yr un modd, a dylech edrych yn ofalus ar bob eithriad er mwyn gweld sut mae'n berthnasol i SAR penodol. Gweithredir rhai eithriadau oherwydd natur y data personol dan sylw, e.e. gwybodaeth a geir mewn tystlythyr cyfrinachol. Gweithredir eraill oherwydd byddai datgelu'r wybodaeth yn debygol o niweidio swyddogaeth benodol y sefydliad y cyflwynir y cais iddo. Nid yw'r DPA yn esbonio beth a olygir wrth 'yn debygol o niweidio'. Fodd bynnag, barn y Comisiynydd Gwybodaeth yw ei fod yn mynnu bod siawns sylweddol (yn hytrach na risg yn unig) y byddai cydymffurfio â'r SAR yn niweidio'n amlwg y modd mae'r swyddogaeth yn cael ei gweithredu.

Os cewch eich herio, mae'n rhaid i chi fod yn barod i amddiffyn mewn llys barn neu yn Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth eich penderfyniad i weithredu eithriad. Felly mae'n arfer da sicrhau bod penderfyniad o'r fath yn cael ei gymryd ar lefel addas o uchel o fewn eich sefydliad a'ch bod yn dogfennu'r rhesymau drosto.

Tystlythyrau cyfrinachol

O dro i dro efallai y byddwch yn rhoi neu'n derbyn tystlythyrau am unigolyn, e.e. mewn cysylltiad â'u cyflogaeth, neu at ddibenion addysgol. Yn aml mae tystlythyrau o'r fath yn cael eu rhoi 'yn gyfrinachol', ond nid yw'r ffaith honno ar ei phen ei hun yn golygu bod y data personol a gynhwyswyd yn y tystlythyr yn cael ei eithrio o fynediad gwrthrych.

Mae'r DPA yn gwahaniaethu rhwng tystlythyrau rydych yn eu rhoi a thystlythyrau rydych yn eu derbyn.

Mae tystlythyrau rydych yn eu rhoi yn cael eu heithrio o fynediad gwrthrych os ydych yn eu rhoi'n gyfrinachol ac at ddiben addysgol yr unigolyn, ei hyfforddiant neu gyflogaeth, neu i ddarparu gwasanaeth ganddynt.

Nid oes eithriad tebyg ar gyfer tystlythyrau a dderbyniwch gan drydydd parti. Os derbyniwch SAR sy'n ymwneud â thystlythyr o'r fath, mae'n rhaid i chi weithredu'r un egwyddorion ynghylch mynediad gwrthrych er mwyn penderfynu a ddylech ddarparu'n llawn neu'n rhannol yr wybodaeth a geir yn y tystlythyr.

Enghraifft

Mae cwmni A yn darparu tystlythyr am un o'i weithwyr i gwmni B. Os yw'r gweithiwr yn cyflwyno SAR i gwmni A, ni ddatgelir y tystlythyr oherwydd fe'i heithrir. Os yw'r gweithiwr yn cyflwyno'r cais i gwmni B, ni eithrir y tystlythyr yn awtomatig rhag cael ei ddatgelu, ac mae'r rheolau arferol ynghylch mynediad gwrthrych mewn grym.

Efallai y bydd yn anodd datgelu'r tystlythyr llawn i'r unigolyn mae'n gysylltiedig ag ef heb ddatgelu peth data personol am awdur y tystlythyr – yn fwyaf amlwg, pwy ydyw. Os na roddwyd y tystlythyr yn gyfrinachol, ni ddylai'r anhawster hwn rwystro datgeliad. Fodd bynnag, os cyfyd mater cyfrinachedd, dylech gysylltu â'r awdur i ganfod a yw'n gwrthwynebu datgelu'r tystlythyr ac os felly, pam.

Hyd yn oed os yw darparwr y tystlythyr yn gwrthwynebu ei ddatgelu mewn ymateb i SAR, bydd yn rhaid i chi gyflenwi'r data personol mae'n ei gynnwys i'r ymgeisydd os yw'n rhesymol i wneud hynny dan yr holl amgylchiadau. Felly bydd angen i chi bwyso buddiannau'r canolwr i gael trin ei sylwadau'n gyfrinachol yn erbyn buddiannau'r ymgeisydd i weld beth a ddwedwyd amdano. Mae ystyriaethau perthnasol yn debygol o gynnwys:

- unrhyw sicrwydd, wedi'i fynegi'n glir, a roddwyd i'r canolwr ynghylch cyfrinachedd;
- unrhyw resymau mae'r canolwr yn eu rhoi am wrthod caniatâd;
- dylanwad tebygol y tystlythyr ar yr ymgeisydd;
- diddordeb yr ymgeisydd mewn medru bodloni ei hun fod y tystlythyr yn wir a chywir; ac
- unrhyw risg y byddai datgeliad yn ei gael ar y canolwr.

Am gyngor pellach ynghylch sut i ymdrin â SARau sy'n cynnwys data personol am drydydd parti, gweler pennod 7.

Gwybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus

Os yw mabwysiad deddf yn gorfodi sefydliad i ddarparu gwybodaeth i'r cyhoedd, eithrir unrhyw ddata personol a geir yn yr wybodaeth honno o hawl i fynediad gwrthrych.

Mae'r eithrio yn gysylltiedig yn unig â'r wybodaeth mae'n rhaid i'r sefydliad gyhoeddi. Os yw'n cadw data personol ychwanegol am yr unigolyn, ni eithrir y data ychwanegol o hawl mynediad gwrthrych hyd yn oed os yw'r sefydliad yn ei gyhoeddi.

Trosedd a threthiant

Eithrir data personol a brosesir ar gyfer rhai dibenion cysylltiedig â throsedd a threthiant o hawl gwrthrych am wybodaeth. Y dibenion hyn yw:

- atal neu ganfod trosedd;
- dal neu erlyn troseddwr; ac
- asesu neu gasglu treth neu doll.

Enghraifft

Mae'r heddlu yn prosesu data personol unigolyn oherwydd eu bod yn ei amau o fod yn gysylltiedig â throsedd difrifol. Petai dweud wrth yr unigolyn eu bod yn prosesu ei ddata personol at y diben hwn yn debygol o niweidio'r ymchwiliad (efallai oherwydd y gallai ddianc neu ddinistrio tystiolaeth), yna nid oes raid i'r heddlu wneud hynny.

Fodd bynnag, mae'r eithriad mewn grym, mewn unrhyw achos penodol, yn unig i'r graddau y byddai cydymffurfio â SAR yn debygol o niweidio'r dibenion trosedd a threthiant a amlinellwyd uchod. Mae angen i chi farnu a yw hynny'n debygol ai peidio ym mhob achos – ni ddylech ddefnyddio'r eithriad i gyfiawnhau gwrthod mynediad at wybodaeth i gategorïau cyfain o ddata personol os yw'r dibenion trosedd a threthiant, yn achos rhai unigolion, yn annhebygol o gael eu niweidio.

Enghraifft

Mae trethdalwr yn cyflwyno SAR i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC) am ddata personol maent yn ei gadw amdano mewn perthynas ag ymchwiliad i achos posibl o osgoi talu trethi. Pe byddai datgelu'r wybodaeth mae HMRC wedi ei chasglu am y trethdalwr yn debygol o niweidio eu hymchwiliad, e.e. oherwydd y byddai'n ei gwneud yn anodd iddynt gasglu tystiolaeth, gallai HMRC wrthod caniatâd i fynediad gwrthrych i'r graddau y byddai gwneud hynny'n debygol o niweidio'u hymchwiliad.

Os nad yw'r trethdalwr, fodd bynnag, yn cyflwyno cais tan rai blynyddoedd yn ddiweddarach pan mae'r ymchwiliad (ac unrhyw erlyniad) ar ben, mae'n annhebygol y byddai cydymffurfio â'r SAR yn niweidio dibenion trosedd a threthiant – os felly byddai'n rhaid i HMRC gydymffurfio ag ef.

Ni fyddai'r eithriad ychwaith yn cyfiawnhau cadw'n ôl yr holl ddata personol sy'n berthnasol i'r cais pan mai dim ond rhan o'r data personol fyddai'n debygol o niweidio'r dibenion hynny.

Enghraifft

Yn yr achos blaenorol am ymchwiliad i achos posibl o osgoi talu trethi, byddai hawl gan HMRC i wrthod mynediad at ddata personol a fyddai'n debygol o niweidio'u hymchwiliad. Fodd bynnag, ni fyddai hynny'n gyfiawnhad dros wrthod caniatâd i gael mynediad at ddata personol arall sydd ganddynt am y trethdalwr.

Mae data personol:

- a brosesir at ddiben cyflawni dyletswyddau statudol; ac

- sy'n cynnwys gwybodaeth a gafwyd at y diben hwn gan rywun a fu'n ei gadw at unrhyw un o'r dibenion trosedd a threthiant a ddisgrifir uchod

yn cael ei eithrio hefyd o hawl gwrthrych i wybodaeth i'r graddau y byddai caniatáu hawl gwrthrych i wybodaeth at ddata personol yn debygol o niweidio unrhyw un o'r dibenion trosedd a threthiant. Mae hyn yn rhwystro i'r hawl fod yn berthnasol i ddata personol a drosglwyddir i gyrff adolygu statudol gan asiantaethau gorfodi cyfraith, ac mae'n sicrhau nad yw'r eithriad yn cael ei golli pan ddatgelir yr wybodaeth yn ystod adolygiad.

Enghraifft

Mae Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu (IPCC) yn agor ymchwiliad i ymddygiad heddlu penodol. Mae dogfennau a drosglwyddwyd i'r IPCC at ddibenion yr ymchwiliad yn cynnwys data personol am Mr A, manylion na fyddai'n rhaid i'r heddlu eu datgelu i Mr A mewn ymateb i SAR – oherwydd byddai gwneud hynny'n niweidio'r ymchwiliad troseddol. Os yw Mr A wedyn yn cyflwyno SAR i'r IPCC, nid oes ganddo fwy o hawl i gael mynediad i'r data personol dan sylw.

Mae Adran 29(4) y DPA yn darparu eithriad pellach i hawl gwrthrych i wybodaeth gyda'r bwriad o rwystro medru defnyddio'r hawl i orfodi awdurdodau perthnasol i ddatgelu gwybodaeth ynghylch sut maent yn canfod trosedd, a systemau gwrth-dwyll, lle gallai datgeliad o'r fath danseilio gweithrediad y systemau hynny.

Gwybodaeth rheoli

Mae eithriad arall yn berthnasol i ddata personol a brosesir ar gyfer darogan rheolaeth neu gynllunio rheolaeth. Eithrir data o'r fath o hawl gwrthrych i wybodaeth i'r graddau y byddai cydymffurfio â'r SAR yn debygol o niweidio'r busnes, neu weithgaredd arall y sefydliad.

Enghraifft

Mae uwch reolwyr sefydliad yn ail-gyflunio. Mae hyn yn debygol o beri bod gweithwyr penodol yn colli eu swyddi, a chynhwysir y posibilrwydd hwn yn y cynlluniau rheolaeth. Cyn datgelu'r cynlluniau i'r gweithlu, mae gweithiwr yn

cyflwyno SAR. Wrth ymateb i'r cais hwnnw, nid oes raid i'r sefydliad ddatgelu ei gynllun i'w wneud yn ddi-waith pe byddai gwneud hynny'n debygol o niweidio llif y busnes (efallai drwy achosi anesmwythder ymhlith y staff cyn cyhoeddi cynlluniau'r rheolwyr).

Trafodaethau gyda'r ymgeisydd

Eithrir data personol sy'n cynnwys cofnod o'ch bwriadau yn ystod trafodaethau gydag unigolyn o hawl gwrthrych i wybodaeth i'r graddau y byddai cydymffurfio â SAR yn debygol o niweidio'r trafodaethau.

Enghraifft

Mae unigolyn yn gwneud cais i'w gwmni yswiriant. Cais am iawndal ydyw, am niwed personol a gafodd mewn damwain. Mae'r cwmni yswiriant yn dadlau difrifoldeb y niwed a'r swm iawndal y dylent ei dalu. Mae papur mewnol yn gosod safbwynt y cwmni ar y materion hyn ac yn nodi'r uchafswm y byddai'n fodlon ei dalu i osgoi mynd â'r achos gerbron llys. Os yw'r unigolyn yn cyflwyno SAR i'r cwmni yswiriant, ni fyddai'n rhaid anfon y papur mewnol ato – oherwydd byddai gwneud hynny'n debygol o niweidio'r trafodaethau i setlo'r cais.

Gweithgaredd rheoleiddio

Efallai fod rhai sefydliadau yn eithrio mynediad gwrthrych i wybodaeth os ydynt yn cyflawni gweithgaredd rheoleiddio. Nid yw'r eithriad ar gael i bob sefydliad, dim ond i'r rhai sydd â chyfrifoldebau rheoleiddio sy'n ymwneud â diogelu'r cyhoedd neu elusennau, neu gystadleuaeth deg o fewn busnes. Gall sefydliadau sydd â swyddogaethau o'r fath weithredu'r eithriad ar gyfer data personol a broseswyd ar gyfer y gweithgaredd rheoleiddio creiddiol hwn yn unig, a dim ond i'r graddau y byddai caniatáu hawl i fynediad at yr wybodaeth dan sylw yn debygol o niweidio iawn gyflawniad y swyddogaethau hynny.

Am wybodaeth bellach ynghylch sut mae'r eithriad yn berthnasol, gweler canllaw Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar [regulatory activity](#).

Cyngor ac achosion cyfreithiol

Eithrir data personol hefyd o hawl mynediad gwrthrych i wybodaeth os yw'n cynnwys gwybodaeth y gellid hawlio rhagorffaint broffesiynol gyfreithiol drosti (neu'r hyn sy'n cyfateb i hynny yn yr Alban, 'cyfrinachedd mewn cyfathrebiadau') yn ystod achosion cyfreithiol mewn unrhyw ran o'r Deyrnas Unedig.

Mae'r cysyniad o ragorffaint broffesiynol gyfreithiol sydd i'w weld yng nghyfraith Lloegr yn cwmpasu'r rhagorffaint 'cyngor cyfreithiol' a'r rhagorffaint 'ymgyfreithio'. Yn fras, mae'r cyntaf yn cyfeirio'n unig at gyfathrebiadau cyfrinachol rhwng cleient a chynghorwr cyfreithiol proffesiynol, a'r ail yn cyfeirio at gyfathrebiadau cyfrinachol rhwng cleient, cynghorwr cyfreithiol proffesiynol neu drydydd parti, ond dim ond lle'r ystyrir ymgyfreithio neu lle mae hynny ar waith.

Mae'r cysyniad o gyfrinachedd mewn cyfathrebiadau sydd i'w weld yng nghyfraith yr Alban yn darparu diogelwch i gyfathrebiadau sy'n ymwneud â derbyn neu ddarparu cyngor cyfreithiol, ac i gyfathrebiadau a wneir mewn cysylltiad ag achosion cyfreithiol. Gellir dal yn ôl gwybodaeth sy'n cynnwys cyfathrebiadau cyfrinachol rhwng cleient a chynghorwr cyfreithiol proffesiynol dan yr eithriad rhagorffaint cyfreithiol yn yr un modd ag y gellir dal yn ôl gwybodaeth am ddenu rhagorffaint 'cyngor cyfreithiol' cyfraith Lloegr. Yn yr un modd, mae athrawiaeth cyfraith yr Alban nad oes raid i ymgyfreithiwr ddatgelu deunydd mae wedi peri ei fod yn dod i fodolaeth at ddiben paratoi ei achos yn diogelu gwybodaeth a fyddai, dan gyfraith Lloegr, yn meddu ar ragorffaint 'ymgyfreithio'.

Lle na ellir hawlio rhagorffaint broffesiynol gyfreithiol, ni chewch wrthod darparu gwybodaeth mewn ymateb i SAR yn unig oherwydd bod yr wybodaeth yn cael ei cheisio mewn cysylltiad ag achosion cyfreithiol posibl, neu sydd ar waith. Nid yw'r DPA yn cynnwys unrhyw eithriad i wybodaeth o'r fath; yn wir, mae'n datgan bod hawl gwrthrych i wybodaeth yn bwysicach nag unrhyw reol gyfreithiol arall sy'n cyfyngu ar ddatgeliadau. At hynny, nid oes dim yn y Ddeddf sy'n cyfyngu ar y dibenion y cyflwynir y SAR o'u plegid, neu sy'n mynnu bod yr ymgeisydd yn dweud wrthoch chi at ba ddiben maent angen yr wybodaeth.

Awgrymwyd bod cyfraith achos yn darparu awdurdod i sefydliadau wrthod cydymffurfio â SAR pan mae'r ymgeisydd yn ystyried, neu eisoes wedi dechrau, achos cyfreithiol. Nid yw'r Comisiynydd Gwybodaeth yn derbyn y safbwynt hwn. Nid yw'n berthnasol os oes

gan yr ymgeisydd ddiben 'cyfochrog' (h.y. ar wahân i geisio gwirio neu gywiro ei ddata personol) dros wneud SAR neu beidio.

Fodd bynnag, mae gan y llys ryddid helaeth i orfodi cydymffurfriad â SAR neu i beidio. Gweler pennod 11 am ragor o fanylion.

Er hynny, nid yw'r ffaith y gall llys ddewis peidio â gorfodi datgeliad data personol unigolyn yn golygu, yn absenoldeb yr eithriad perthnasol, nad yw'r DPA yn mynnu eich bod yn ei datgelu. Golyga'n syml ei bod yn bosibl na fydd yr unigolyn yn gallu sicrhau cefnogaeth y llys er mwyn gorfodi ei hawl ef neu hi.

Cofnodion gwaith cymdeithasol

Mae rheolau arbennig mewn grym lle byddai darparu mynediad at wybodaeth am wasanaethau cymdeithasol a gweithgaredd perthynol yn debygol o niweidio cyflawni'r gwaith cymdeithasol drwy achosi niwed difrifol i iechyd corfforol neu feddyliol neu gyflwr yr ymgeisydd neu unrhyw berson arall. Rhestrir y rheolau hyn yng Ngorchymyn Diogelu Data (Addasiad Mynediad at Wybodaeth) (Gwaith Cymdeithasol) 2000 (SI 2000/415). Eu heffaith yw eithrio data personol a brosesir at y dibenion hyn o hawl gwrthrych i wybodaeth i'r graddau y byddai ei ddatgeliad yn debygol o achosi niwed.

Daw eithriad pellach o hawl gwrthrych i wybodaeth at gofnodion gwaith cymdeithasol i rym pan gyflwynir SAR gan drydydd parti sydd â'r hawl i gyflwyno cais ar ran yr unigolyn, megis rhiant plentyn, neu rywun a benodwyd i reoli busnes unigolyn sy'n analluog. O dan yr amgylchiadau hyn, eithrir data personol o hawl gwrthrych i wybodaeth os yw'r unigolyn wedi ei gwneud yn eglur nad yw am ei ddatgelu i'r trydydd parti hwnnw.

Cofnodion iechyd ac addysg

Esbonnir yr eithriadau a allai fod ar waith pan fydd SAR yn ymwneud â data personol a geir mewn cofnodion iechyd ac addysg ym mhennod 10 y cod.

Eithriadau eraill

Yr eithriadau a nodir yn y bennod hon yw'r rhai sy'n fwyaf tebygol o fod ar waith yn ymarferol. Fodd bynnag, mae'r DPA yn cynnwys eithriadau pellach a allai fod yn berthnasol wrth ymwneud â SAR.

Am wybodaeth bellach am eithriadau, gweler [ICO Guide to Data Protection](#).

Mae'n bosibl y bydd gan sefydliad sy'n gwneud defnydd addas o'r eithriadau sy'n berthnasol i SAR y dangosyddion arfer da a ganlyn:

Dal gwybodaeth yn ôl, neu olygu gwybodaeth

Os caiff gwybodaeth ei dal yn ôl gan ddibynnu ar eithriad, mae'r ymateb yn esbonio, i'r graddau mae'n gallu gwneud hynny, y ffaith fod gwybodaeth wedi ei dal yn ôl, a'r rhesymau dros hynny. Cyflwynir yr esboniad mewn Saesneg clir, ac mae'n gwneud mwy na nodi'n syml fod eithriad penodol mewn grym.

Mae gwybodaeth sydd i gael ei golygu yn cael ei chymeradwyo cyn copïo deunydd ffynhonnell yn ei ffurf olygedig. Yna bydd o leiaf un adolygiad ansawdd arno gan reolwr, er mwyn cadarnhau bod yr holl ddata wedi'i eithrio'n briodol. Cedwir copi o fwndel y datgeliad yn dangos y golygiadau a'r rhesymau drostynt er gwybodaeth.

Ar ôl eu cymeradwyo, mae golygiad naill ai'n cael ei weithredu â llaw gan ddefnyddio marciwr du sydd wedyn yn cael ei llungopïo, neu'n electronig gan ddefnyddio Adobe Acrobat neu feddalwedd golygu un-pwrpas.

Sicrhau cysondeb

Cynhwysir cyngor ar weithredu'r eithriadau sy'n fwyaf perthnasol i weithgareddau'r sefydliadau mewn canllaw SAR i staff.

Cyflawnir asesiadau ansawdd i sicrhau bod yr eithriadau yn cael eu gweithredu'n gyson.

10. Achosion arbennig

Ffeiliau credyd

Mae darpariaethau arbennig yn rheoleiddio mynediad at ddata personol a gedwir gan asiantaethau credyd. Pan fydd asiantaethau credyd yn cadw data personol sy'n berthnasol i sefyllfa ariannol unigolyn (gwybodaeth mewn ffeil cyfeirnod credyd), mae'n rhaid iddynt ddarparu copi o'r wybodaeth o fewn saith diwrnod o dderbyn cais ysgrifenedig ac o dderbyn ffi o £2. Bydd yn rhaid i asiantaethau credyd wirio pwy yw'r person sy'n cyflwyno'r cais cyn iddynt ymateb. Am ganllaw pellach am wybodaeth a gedwir gan asiantaethau credyd gweler [Credit Explained](#).

Cofnodion iechyd

Beth yw cofnod iechyd?

At ddibenion Deddf Diogelu Data 1998 (DPA), 'cofnod iechyd' yw cofnod sydd:

- yn cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud ag iechyd corfforol neu iechyd meddwl, neu gyflwr yr unigolyn; ac
- a wnaed gan neu ar ran gweithiwr iechyd mewn perthynas â gofal yr unigolyn hwnnw.

Mae 'gweithwyr iechyd' yn cynnwys ymarferwyr meddygol cofrestredig, deintyddion a nyrsys a seicolegwyr clinigol. Mae DPA yn darparu rhestr gyflawn o'r mathau o weithwyr sydd o fewn y diffiniad (gweler adran 69 y Ddeddf).

Mae gwybodaeth sy'n rhan o gofnod iechyd am unigolyn yn ddata personol yr unigolyn dan sylw, beth bynnag yw'r ffurf y'i storir ynddi. Golyga hyn y gellir cyflwyno cais gwrthrych am wybodaeth (SAR) am gofnodion meddygol a gedwir ar ffurf a wnaed â llaw, e.e. ar bapur neu yn waledi nodiadau meddygol meddyg teulu, yn ogystal ag ar gyfer cofnodion iechyd a gedwir yn electronig.

A allaf godi ffi am ddarparu gwrthrych am wybodaeth am gofnodion iechyd?

Gallwch godi uchafswm ffi o rhwng £10 a £50 am gydymffurfio â SAR sy'n ymwneud â chofnodion iechyd. Mae union swm yr uchafswm ffi yn dibynnu ar sut y cedwir y cofnodion iechyd.

- Gallwch godi hyd at £10 am gydymffurfio â SAR sy'n ymwneud â chofnodion iechyd os cedwir hwy'n electronig yn unig.
- Gallwch godi ffi o hyd at £50 am gydymffurfio â SAR sy'n ymwneud â chofnodion iechyd os cedwir y cofnodion hynny naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol ar ffurf nad yw'n electronig.

Gellir codi'r taliadau hyn os ydych yn cydymffurfio â SAR drwy ddarparu'r ymgeisydd â chopi parhaol o'r wybodaeth berthnasol. Gallwch godi hyd at yr uchafswm ffi ni waeth faint o dudalennau o wybodaeth a geir.

Fodd bynnag, os yw'r cofnodion iechyd dan sylw yn yr ail o'r ddau gategori uchod (hynny yw, nid ydynt yn gofnodion electronig yn unig), a'u bod wedi eu creu, neu fod wedi ychwanegu atynt, yn ystod y 40 diwrnod cyn cyflwyno'r SAR, mae'n rhaid i chi gynnig cyfle i'r ymgeisydd i archwilio'r cofnodion llaw yn ddi-dâl, yn hytrach na chael copi parhaol ohonynt wedi ei gyflwyno iddo. Gall unigolion deilwra eu SARau fel eu bod yn ymwneud yn unig â'r wybodaeth mae'r hawl hwn i archwilio'n ddi-dâl yn berthnasol iddi.

A eithrir cofnodion iechyd o fynediad gwrthrych o gwbl?

Mae'r eithriadau a chyfyngiadau sy'n berthnasol i fathau eraill o ddata personol hefyd yn berthnasol i ddata personol a geir mewn cofnod iechyd. Felly, er enghraifft, os yw cofnod iechyd yn cynnwys data personol sy'n ymwneud â rhywun heblaw'r ymgeisydd (megis aelod o'r teulu), mae'n rhaid i chi ystyried y rheolau ynghylch data trydydd parti cyn ei ddatgelu i'r ymgeisydd (gweler pennod 7 am fwy o wybodaeth). Fodd bynnag, fel arfer ni ddylid cadw'n ôl wybodaeth sy'n datgelu pwy yw gweithiwr proffesiynol, megis meddyg neu weithiwr cymdeithasol, sy'n cyflawni ei ddyletswyddau.

Yn ogystal, mae rheolau arbennig mewn grym lle byddai darparu mynediad at wybodaeth am iechyd corfforol neu feddyliol unigolyn, neu ei gyflwr, yn debygol o achosi niwed difrifol iddo ef neu i iechyd corfforol a meddyliol neu gyflwr person arall. Rhestrir y rheolau hyn yng Ngorchymyn Diogelu Data (Addasiad Mynediad Gwrthrych) (Iechyd) 2000 (SI 2000/413), a'u heffaith yw eithrio data personol o'r math hwn o hawl mynediad gwrthrych i'r graddau y byddai ei ddatgeliad yn debygol o achosi niwed o'r fath.

Er mwyn gweithredu'r eithriad, mae'n amlwg fod angen asesiad o'r tebygolrwydd y byddai'r datgeliad yn achosi niwed difrifol. Oni bai eich bod yn weithiwr iechyd, mae'n rhaid i chi ymgynghori â'r gweithiwr iechyd sy'n gyfrifol am ofal clinigol yr unigolyn dan sylw cyn penderfynu a yw'r eithriad hwn yn berthnasol. Nid yw'r gofyniad hwn i ymgynghori yn berthnasol os yw'r unigolyn eisoes wedi gweld, neu'n gwybod am, yr wybodaeth dan sylw.

Ceir eithriad pellach o hawl mynediad gwrthrych at wybodaeth am iechyd corfforol neu feddyliol pan gyflwynir SAR gan drydydd parti sydd â'r hawl i wneud y cais ar ran yr unigolyn, megis rhiant plentyn neu rywun a benodwyd i reoli busnes unigolyn sy'n analluog. O dan yr amgylchiadau hyn, eithrir data personol o hawl mynediad gwrthrych os yw'r unigolyn wedi ei gwneud yn eglur nad yw am ei ddatgelu i'r trydydd parti hwnnw.

Gwybodaeth a gedwir gan ysgolion am ddisgyblion

Gallai disgybl, neu rywun yn gweithredu ar ei ran, gyflwyno SAR yn ymwneud â data personol a gedwir am ddisgybl gan ysgol. Os yw'r ysgol yn Lloegr, Cymru, neu Ogledd Iwerddon, dylai'r ysgol ymwneud â'r SAR. Os yw'r ysgol yn yr Alban, dylai'r awdurdod addysgol priodol ymwneud â'r SAR, neu berchennog ysgol annibynnol.

Mae dwy hawl benodol i wybodaeth a gedwir am ddisgyblion gan ysgolion. Sef:

- hawl y disgybl o dan y DPA i gael mynediad at wybodaeth; a
- hawl y rhiant i gael mynediad at 'gofnod addysgol' ei blentyn (dim ond mewn ysgolion a gynhelir mae'r hawl mynediad yn berthnasol – nid ysgolion annibynnol, academiâu Lloegr nac ysgolion rhad).

Er mai ymwneud yn unig â hawl gwrthrych i wybodaeth a wna'r cod hwn, mae'n bwysig deall beth a olygir wrth 'gofnod addysgol' disgybl. Mae hyn oherwydd bod gorgyffwrdd rhwng y ddwy hawl a nodir uchod, a hefyd oherwydd bod 'cofnod addysgol' yn berthnasol wrth bennu'r ffi y gallwch ei chodi am ymateb i SAR. Nid yw'r gyfraith ar gofnodion addysgol yn rhan o gyfrifoldebau rheoleiddiol y Comisiynydd Gwybodaeth, ond rydym yn cyfeirio ato yma i sicrhau cyflawnrwydd.

Mae'r diffiniad statudol o 'gofnod addysgol' yn wahanol rhwng Lloegr a Chymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Yn siarad yn gyffredinol fodd bynnag, mae i'r ymadrodd ystyr eang ac mae'n cynnwys y rhan fwyaf o wybodaeth am ddisgyblion presennol a chyn-ddisgyblion a brosesir gan neu ar ran yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw gwybodaeth a gedwir gan athro ar gyfer ei ddefnydd ei hun yn unig yn rhan o'r cofnod addysgol. Mae'n debygol fod y rhan fwyaf o'r wybodaeth bersonol a gedwir gan ysgol am ddisgybl penodol yn rhan o gofnod addysgol y disgybl. Fodd bynnag, mae'n bosibl y gallai rhywfaint o'r wybodaeth fod y tu allan i'r cofnod addysgol; e.e. nid yw gwybodaeth am y disgybl a ddarparwyd gan riant plentyn arall yn rhan o'r cofnod addysgol.

Yn wahanol i'r hawl benodol i fynediad at y cofnod addysgol, hawl y disgybl yw'r hawl i gyflwyno SAR. Dim ond os yw'r plentyn yn anabl i weithredu ar ei ran ei hun, neu os yw wedi rhoi ei ganiatâd, y bydd gan rieni hawl i gael mynediad at wybodaeth drwy gyflwyno SAR. Am ganllaw ar benderfynu a yw plentyn yn abl i gyflwyno ei SAR ei hun, gweler pennod 4. Os yw'n aneglur a yw ymgeisydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn neu'n gweithredu ar ei ran, dylech gael eglurhad ar hyn cyn ymateb i'r SAR.

Wrth benderfynu pa wybodaeth i'w darparu mewn ymateb i SAR, mae angen i chi gadw mewn cof yr egwyddorion cyffredinol am eithriadau o fynediad gwrthrych a ddisgrifir mewn rhannau eraill o'r cod hwn. Mae enghreifftiau o'r wybodaeth y gallai fod yn briodol (yn dibynnu ar amgylchiadau) ei dal yn ôl yn cynnwys:

- gwybodaeth a allai achosi niwed difrifol i iechyd corfforol neu feddyliol y disgybl neu unigolyn arall;
- gwybodaeth a fyddai'n datgelu bod y plentyn mewn perygl o gael ei gam-drin, lle na fyddai datgelu'r wybodaeth honno er lles gorau'r plentyn;
- gwybodaeth a gedwir mewn cofnodion gorchymyn mabwysiadu neu orchymyn rhiant; a
- gwybodaeth benodol a roddir i lys mewn achos sy'n ymwneud â'r plentyn.

Os gwneir SAR am wybodaeth sy'n cynnwys, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, 'cofnod addysgol' disgybl, mae'n rhaid darparu ymateb o fewn 15 diwrnod ysgol (os yw'r ysgol yn Lloegr, Cymru neu Ogledd Iwerddon). Mae'r uchafswm y gallwch ei godi am ymdrin â'r cais yn dibynnu ar y nifer tudalennau o wybodaeth a gyflenwir. Dengys y tabl a ganlyn y ffioedd uchaf.

Nifer tudalennau o wybodaeth a	Uchafswm ffi
--------------------------------	--------------

gyflenwyd	
1-19	£1
20-29	£2
30-39	£3
40-49	£4
50-59	£5
60-59	£6
70-79	£7
80-89	£8
90-99	£9
100-149	£10
150-199	£15
200-249	£20
250-299	£25
300-349	£30
350-399	£35
400-449	£40
450-499	£45
500+	£50

Os nad yw SAR yn ymwneud ag unrhyw wybodaeth sy'n ffurfio rhan o gofnod addysgol, yna mae'r terfyn amser arferol o 40 diwrnod ar gyfer ymateb yn berthnasol. Yr uchafswm ffi ar gyfer delio â'r cais yw £10.

Gwybodaeth am arholiadau

Mae rheolau arbennig yn berthnasol i SARau sy'n cyfeirio at wybodaeth am ganlyniadau arholiadau academiaidd, proffesiynol, neu arholiadau eraill. Cynlluniwyd y rheolau hyn, sy'n berthnasol i geisiadau am sgrïptiau arholiad, marciau, a sylwadau marcwyr, er mwyn rhwystro defnyddio hawl gwrthrych i wybodaeth fel modd o fod yn drech na phrosesau corff arholi i gyhoeddi canlyniadau.

Eithrir atebion a roddwyd gan ymgeisydd yn ystod arholiad o hawl gwrthrych i wybodaeth. Felly ni ellir defnyddio SAR i gael copi o sgrïpt arholiad unigolyn.

Er nad yw'r eithriad hwn yn ymestyn i sylwadau arholwr ar berfformiad ymgeisydd mewn arholiad (p'un a yw'r sylwadau hynny wedi eu nodi ar y sgrïpt arholiad neu wedi eu cofnodi ar ddalen farcio ar wahân), neu at fanylion y marciau a ddyfarnwyd, mae rheol arbennig sy'n rheoli'r terfyn amser ar gyfer ymateb i SAR am wybodaeth o'r fath mewn achosion lle gwneir y SAR cyn cyhoeddi'r

canlyniadau. Mewn achosion o'r fath, mae'n rhaid darparu ymateb o fewn y cynharaf o ddau ddyddiad:

- pum mis i ddyddiad y cais; a
- 40 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r canlyniadau.

Pan gyflwynir SAR ar gyfer marciau arholiad unigolyn, dim ond am resymau a ganiateir gan y DPA y gellir gwrthod (neu ohirio) ymateb. Felly ni fyddai'n briodol i wrthod darparu manylion marciau arholiad mewn ymateb i SAR oherwydd bod yr ymgeisydd wedi methu â thalu ffioedd dysgu. Yn amlwg, er hynny, nid yw darparu gwybodaeth am ganlyniadau arholiad yr un peth â dyfarnu cymhwyster.

11. Gorfodi hawl cais gwrthrych am wybodaeth

Pwerau gorfodi'r Comisiynydd Gwybodaeth

Gall unrhyw un sy'n credu ei fod yn cael ei effeithio'n uniongyrchol gan brosesu data personol ofyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) i asesu a yw'n debygol neu'n annhebygol fod prosesu o'r fath yn cydymffurfio â Deddf Diogelu Data 1998 (DPA). Gelwir hynny'n asesiad cydymffurfiad.

Os yw ein hasesiad yn dangos bod sefydliad wedi methu â chydymffurfio â'r DPA (neu'n methu â gwneud hynny), gallwn ofyn iddo gymryd camau i gydymffurfio â'n hegwyddorion diogelu data. Lle bo hynny'n addas, gallai Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth orfodi'r sefydliad i wneud hynny. Fodd bynnag, nid oes gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth unrhyw rym i ddyfarnu iawndal i unigolion – dim ond y llysoedd all wneud hynny.

Gallai'r Comisiynydd Gwybodaeth gyflwyno rhybudd gorfodi os yw'n fodlon fod sefydliad wedi methu â chydymffurfio â'r darpariaethau ar gyfer gwrthrych i wybodaeth. Gallai rhybudd gorfodi fynnu bod sefydliad yn cymryd camau i gydymffurfio â'i ddyletswyddau yn hyn o beth. Mae methiant i gydymffurfio â'r rhybudd gorfodi yn drosedd. Ni fydd y Comisiynydd Gwybodaeth o reidrwydd yn cyflwyno rhybudd gorfodi oherwydd bod sefydliad wedi methu â chydymffurfio â darpariaethau mynediad gwrthrych. Cyn cyflwyno rhybudd mae'n rhaid iddi ystyried a achosodd y drosedd neu a yw'n debygol o achosi niwed neu ofid. Gall gyflwyno rhybudd hyd yn oed os na fu niwed neu ofid ond mae'n rhaid iddi fod yn rhesymol, dan yr holl amgylchiadau, iddi wneud hynny. Ni fydd yn mynnu bod sefydliadau yn cymryd camau afresymol neu anghymesur i gydymffurfio â'r gyfraith ar fynediad gwrthrych.

Mae gan y Comisiynydd Gwybodaeth rym statudol i osod cosb ariannol ar sefydliad os yw'n fodlon bod y sefydliad yn euog o dorri amodau SAR mewn modd difrifol ac sy'n debygol o achosi niwed neu ofid sylweddol.

Am fwy o wybodaeth am bwerau gorfodi'r Comisiynydd Gwybodaeth, gweler [ICO Guide to Data Protection](#).

Gorfodaeth drwy orchymyn llys

Os methwch â chydymffurfio â chais mynediad gwrthrych (SAR), gall yr ymgeisydd wneud cais am orchymyn llys yn eich gorfodi chi i gydymffurfio. Mater i'r llys fydd penderfynu, ym mhob achos penodol, a fyddant yn gwneud gorchymyn o'r fath.

Fel y nodwyd ym mhennod 9, nid yw'n berthnasol a oes gan yr ymgeisydd reswm 'cyfochrog' dros wneud SAR. Mae'r Llys Apêl³ wedi dweud "nad oes unrhyw beth yn y DPA na'r Gyfarwydddeb sy'n cyfyngu i ba ddiben y gall gwrthrych data ofyn am ei ddata".

Er y bydd y llys fel arfer yn arfer ei ddoethineb o blaid y gwrthrych data, nid oes ganddo ryddid eang i o ran a ddylai orchymyn cydymffurfiaid gyda SAR neu beidio. Mae yna amrywiaeth o ffactorau y gallai'r llys eu hystyried, gan gynnwys:

- natur a phwysigrwydd toriad y rheolydd data o'i rwymedigaethau a7;
- yr egwyddor gyffredinol o gyfranoled;
- cydbwysio hawl sylfaenol hawl unigol gwrthrych i fynediad gyda buddiannau'r rheolydd data;
- niwed i hawliau'r unigolyn;
- a oes llwybr mwy priodol i ddatgeliad (sylwer nad yw hyn yn effeithio ar rwymedigaeth y rheolydd data i ddatgelu mewn ymateb i SAR, ond gall effeithio ar ddefnydd o ryddid y llys i benderfynu); a

ble ceir camddefnydd o broses neu wrthdaro buddiannau, gallai hyn ddylanwadu ar y llys i beidio cyflwyno gorchymyn.

Er hynny, fel yr esboniwyd gennym ym mhennod 9, nid yw p'un a fyddai llys yn debygol o ganiatáu gorchymyn gorfodi ai peidio yn dwyn unrhyw berthynas â'ch dyletswydd gyfreithiol chi i gydymffurfio â SAR. Dim ond os oes eithriad perthnasol o dan y DPA mewn grym yn amgylchiadau penodol y cais y gallwch chi wrthod cydymffurfio.

Dyfarniadau iawndal

Os yw unigolyn yn cael niwed oherwydd eich bod chi wedi torri amodau'r DPA – gan gynnwys, wrth gwrs, drwy fethu â chydymffurfio â SAR – mae ganddo hawl i ofyn iawndal. Dim ond drwy'r llysoedd y gellir gorfodi'r hawl hon. Mae'r DPA yn caniatáu i chi amddiffyn cais am iawndal ar y sail eich bod wedi cymryd pob

³ In Dawson-Damer, cited earlier

gofal rhesymol, dan yr amgylchiadau, i osgoi'r tor-amod, ond mae'n debygol y bydd yn anodd sefydlu'r amddiffyniad os ydych wedi methu ag ymateb i SAR o fewn y terfyn amser a roddwyd, neu os nad ydych wedi cyflwyno i'r ymgeisydd yr holl wybodaeth maent â hawl iddi.

Am wybodaeth bellach am geisiadau am iawndal, gweler yr [ICO Guide to Data Protection](#).

Mae gorfodi unigolyn i wneud SAR yn dramgwydd troseddol

Mae'n dramgwydd troseddol, dan amgylchiadau penodol a pharthed gwybodaeth benodol, i ofyn i unigolyn wneud cais gwrthrych am wybodaeth.

Am ragor o wybodaeth ar geisiadau gwrthrych am wybodaeth dan orfod, gweler [Enforced subject access \(section 56\)](#).

Atodiad

Rhestr wirio cais gwrthrych am wybodaeth

1. Ai cais gwrthrych am wybodaeth ydyw?

IE Ewch i gwestiwn 2

NAGE Ymdriniwch ag ef fel rhan o waith arferol y dydd.

Mae unrhyw gais ysgrifenedig a wneir gan unigolyn yn gofyn am wybodaeth bersonol amdanynt eu hunain yn gais gwrthrych am wybodaeth. Gallwch ddewis ymdrin ag ef mewn un o ddwy ffordd: fel ymholiad cyffredin, neu'n fwy ffurfiol.

Os yw'n bosibl, trafodwch geisiadau sy'n hawdd delio â hwy fel gorchwylion rheolaidd, a'u cyflawni yn nhrefn arferol pethau; er enghraifft:

- Sawl gwaith wnes i godi arian o'm cyfrif yn ystod y mis diwethaf?
- Beth yw fy rhif cyfeirnod cwsmer?

Mae'r materion a ganlyn yn fwy tebygol o gael eu trin yn ffurfiol:

- Anfonwch gopi o'm cofnodion cyflogaeth ataf, os gwelwch yn dda.
- Rwy'n gyfreithiwr sy'n gweithredu ar ran fy nghleient Mr X ac rwy'n gwneud cais am gopi o'i gofnodion meddygol. Amgaeaf y manylion awdurdodi priodol.

2. A oes gennych chi ddigon o wybodaeth i fod yn sicr pwy yw'r ymgeisydd?

OES Ewch i gwestiwn 3

NAC OES Gofynnwch i'r ymgeisydd am unrhyw dystiolaeth mae ei hangen arnoch i brofi pwy yw.

3. A ydych angen mwy o wybodaeth gan yr ymgeisydd er mwyn dod o hyd i'r hyn maent yn gofyn amdano?

NA Ewch i gwestiwn 4

YDW Gofynnwch iddynt yn ddi-oed am yr wybodaeth bellach rydych yn rhesymol ei hangen er mwyn i chi fedru dod o hyd i'r wybodaeth maent yn gofyn amdani.

4. A ydych chi'n codi ffi?

NA Ewch i gwestiwn 5

YDW Byddwch angen gofyn i'r unigolyn dalu'r ffi yn ddi-oed.

Yr uchafswm ffi y gallwch ei chodi yw £10, oni bai fod yr wybodaeth y gofynnwyd amdani yn gofnodion iechyd neu addysg – am ragor o wybodaeth gweler pennod 5.

Mae'r cyfnod o 40 dydd calendr yn dechrau pan dderbyniwch y ffi, a'r holl wybodaeth rydych ei hangen i'ch helpu i ddod o hyd i'r wybodaeth.

5. A yw'r wybodaeth mae'r ymgeisydd ei heisiau yn eich meddiant?

YDI Ewch i gwestiwn 6

NA Dywedwch wrth yr ymgeisydd nad yw'r wybodaeth maent ei heisiau yn eich meddiant.

6. A fydd yr wybodaeth yn cael ei newid rhwng derbyn y cais ac anfon yr ymateb?

NA Ewch i gwestiwn 7

BYDD Gallwch ddal i wneud golygiadau a dileadau i wybodaeth bersonol yn unol â gweithgaredd arferol swyddfa ar ôl derbyn y cais.

Mae'n rhaid i chi beidio â gwneud newidiadau i gofnodion ar ôl derbyn y cais, hyd yn oed os yw'r wybodaeth yn anghywir neu'n peri chwithdod.

7. A yw'n cynnwys gwybodaeth am bobl eraill?

NA Ewch i gwestiwn 8

YDYW Ni fydd yn rhaid i chi ddarparu'r wybodaeth oni bai fod y bobl eraill a enwir wedi rhoi caniatâd i'r datgeliad, neu ei bod yn rhesymol darparu'r wybodaeth heb eu caniatâd.

Os ydych yn penderfynu peidio â datgelu'r wybodaeth am y bobl eraill, dylech ddal i ddatgelu cymaint o wybodaeth ag sy'n bosibl drwy ddileu'r cyfeiriadau atynt. Gweler pennod 7 am ganllaw pellach ar hyn.

8. A oes rheidrwydd arnoch i ddarparu'r wybodaeth?

OES Ewch i gwestiwn 9

NA Os yw'r holl wybodaeth mae'r ymgeisydd ei heisiau wedi'i heithrio o hawl gwrthrych i wybodaeth, yna gallwch ateb nad ydych yn cadw dim o'u data personol y mae rheidrwydd arnoch ei datgelu.

O dan rai amgylchiadau nid oes rheidrwydd arnoch i ddarparu gwybodaeth benodol.

Gweler pennod 9 am ganllaw ar yr eithriadau.

9. A yw'r wybodaeth yn cynnwys unrhyw dermau neu godau cymhleth?

NA Ewch i gam 10

YDYW Mae'n rhaid i chi sicrhau eich bod yn esbonio'r codau fel bod yr wybodaeth yn ddealladwy. Ewch i gam 10.

10. Paratowch yr ymateb

Mae'n rhaid i chi ddarparu copi o'r wybodaeth ar ffurf barhaol oni bai fod yr unigolyn yn cytuno'n wahanol, neu y byddai gwneud hynny'n amhosibl neu'n golygu ymdrech anghymesur.

Am fwy o fanylder gweler pennod 8.

Os dymunwch gysylltu â ni ffoniwch 0303 123 1113 os gwelwch yn dda.

www.ico.org.uk

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth,
Wycliffe House, Water Lane,
Wilmslow, Swydd Gaer SK9 5AF

Mehefin 2017
Fersiwn 1.2

ico.

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth